

....

Gwefan Cymru-Catalonia kimkat.org

Teitl: **Ni'n Doi**

Awdur: **Glynfab**

Blwyddyn: **1918** (pan oedd yn 61-62 oed)

Ar ffurf fformat dogfen gludadwy (FDG / PDF).

Rev. William Williams (hefyd: William Glynfab Williams, Glynfab Williams, Glynfab)

Ganwyd: 1856, Aberystroth, Sir Fynwy

Bu farw: 24 Hydref 1947, Dinas, Sir Benfro (yn 90/91 oed)

Claddwyd ym mynwent Eglwys Frynach, Dinas

Ysgolfeistr yng Nghwmclydach, Rhondda, Morgannwg;

Nofelydd, cyfansoddwr, arweinydd cerddorol, organydd, golygydd Yr Haul (> 1900),

ficer yn Llanbedr Pont Steffan (Sir Aberteifi) a Phen-bre (Sir Gaerfyrddin);

ficer a chiwrad yn Ninas (Sir Benfro); Maer Trefdraeth (Sir Benfro).

Fe'i hapwyntwyd yn ganon mygedol yn 82 oed gan Esgob Tyddewi.

Llyfr mwyaf Difyrus yr Iaith.

'Ni'n Doi'



Sef
Hanes
Ysmala
DAI
a
SHONI
yn y
Rhyfel.

Gan GLYNFAB.

CARMARTHEN:
W. M. EVANS & SON, HALL STREET.

PRIS SWLLT.

4950

THIRD EDITION.

'NI'N DOI.'

Diccyn o Anas Dai a Finna a'r
Ryfal

"I gatw'r ên Dafottiath yn fyw."

Gan GLYNFAB.

[Awdwr—"THE RAVEN," Buddugol yn Eist. Gen. 1911;
"SILVANO," a Nofelau eraill.]

'Shift y Bora.'

CAERFYRDDIN:
W. M. EVANS A'I FAB, SWYDDFA "SEREN, OYMRU."

First Edition.....1918
Second Edition.....1919
Third Edition.....1920

= Cynwysiad. =

- Shwrna Ginta—"Racymattrodd."
- Yr Ail Shwrna—"Ar y Ffordd Sha Gardydd."
- Y Dryttydd Shwrna—"Yn Gardydd."
- Y Betwarydd Shwrna—"Off gytta'r Train i'r Camp."
- Y Bimfad Shwrna—"Yn y Camp yn Cal y'n Shapo."
- Y Wechfad Shwrna—"Mynd i Settlo Squars â Will."
- Y Seithfad Shwrna—"Racor o Shapo."
- Yr Wythfad Shwrna—"Shoppa Diccyn yn Bolougne."
- Y Nawfad Shwrna—"Noswath o Gonsitro."
- Y Ddecfad Shwrna—"Yn Nes at Will y Kaisar."
- Yr Unfad-Shwrna-ar-Ddeg—"Off Sha'r Trenches."
- Y Ddoi-Ddecfad Shwrna—"Yn y Baw a'r Slwde."
- Y Dryttydd-Shwrna-ar-Ddeg—"Talu'r 'en Wech."
- Betwarydd-Shwrna-ar-Ddeg—"Wmladd Dychryn-
llyd."
- Y Bymthecfad Shwrna—"Wado Mlan a'r Wmladd."

NI'N DOI.

SHWRNA GINTA.

“RACYMATTRODD.”

O NI'N Doi yn ishta ar y partin dwpwl, yn y ddwy-a-naw, yn mwll y Winsor, un diwetydd dydd Gwenar, Dai a finna.

“Shoni,” mynta Dai yn syttan, “Wy ti'n darllan yr Ecco spo, a yn gwpod diceyn o anas y ryfal ma.”

“Ottw, ottw, bachan,” myntwn i. “Wy ti'n cretu mod i weti câl y ngwnni o dan dwbin? No fears my boy.”

“Sdim eesha i ti golli di wallt, Shoni; dim on gofyn o ni; shwt ma petha, otti fe My Nabs o Berlin jest cal diccon?”

“Wel,” myntwn i, yn eetha prysur nawr, “Wel, ma arno i ofan, Dai, y cymrith, a diceyn racor cyn cal diccon, bachan.”

“H'm,” mynta Dai, yn symyd y bilsen bacco o un ochor idd i ben i'r ochor arall, “H'm.”

Odd lot yn yr “H'm” na, cretwch chi fi. O odd. Odd Dai weti cal ewnnad da, a weti passo'r standards yn yr yshgol-bob-dydd. Peth odd Dai ddim yn wpod am Martha Matics a Jograffy, a phetha felnâ, odd a ddim gworth i chi a finna foddran y'n pen o bothdi fa. I gâs i gwnni y drws nesa i'r wyrcws, on dyw ynny ddim yn gwêd fod Dai yn dlawd, mwy na gwêd

fod bachan yn geffyl achos iddo gal i gwnni yn acos i stapal. A gweyd y gwir, fi allsa Dai shiglo o bothdi iccan punt yn i boccad ar ddi-wadd y mish, ar ddydd Satwrn pai.

"Dim weti cal diccon, bachan! Cistal i ti a fi joino'r showdwrs; i garrantia i y caiff a ddiccon wettyny," mynta Dai.

"Right O' bachan," wetas i, "eetha bolon," a fi setlon miwn bothdi shiffad.

"Scrifenna at King George, Shoni, a gwed bod ni'n dod."

"Sdim eesha bachan," myntwn i, "dim on mynd lawr sha Gardydd a—there you are."

"I'm your man," mynta Dai, yn cwnni ar i drâd, a yn roi stretch idd i freecha. "Yes, Shoni, I'm your man, a cistal i'r Kaisar bacco'i fox, a gweyd goo'-bye wrth y glomman sy gytta fa. I should like to see My Nabs procrastinated, ser."

"Ble wyt ti'n cal y geira mawr na Dai?" myntwn i.

"O, wrth ddarllan y pappra," mynta Dai, yn lleti frest. "Wel, nawr Shoni, pryd ewn ni? Walla daw Will-eddin-galad gytta ni, ma Will yn ddiccon tal."

"Diccon tal! Otti wir ddyn; fydda fa ddim ffôl o blan i lifo Will yn i annar, a neyd doi showdwr o no," myntwn i.

"Paid a'n ela i wyrthin, Shoni, paid wir," mynta Dai.

"Cistal i Will geesho mynd yn spessial constable, Dai, er mwyn watcho diccyn sha thre."

"Ia," mynta Dai, "a sa fa'n cwrdd â German, dim on cwmpo ddwywath fyssa eesha arno, cyn bod i ben a miwn trw drws i dŷ, fel ergyd o raw."

I wyrthinson y'n doi nes bo'n ochra ni yn stitches.

I ddath Morgans yr Under-Manager eebo.

"Ar fencos i boys," mynta fa, "be sy'n bod? Otti chi off o ar y'ch penna?"

"Wel," wetas i, "dyw i ddim gworth troi'r gath yn y batall; cystal gneyd clean breast; ma Dai a finna yn myn'd i joino'r Regilars."

"Whew!" mynta Morgans, fel swn gwynt trw dwll y clo. "Whew! Na bombshell i Will o Berlin. Ottich chi'n wir, boys?"

"Ottin, ottin," mynta Dai, "os dim eesha pilo wia o bothdi'r fisnas."

"Catw di wallt," mynta Morgans, "W i'n gweyd dim i di fychanu di, w i'n dy fraggo di a Shoni bob amsar. W i'n falch fod boys o'ch short chi yn barod i roi pocad o'r baginet i'r Germans. Cerwch y'ch doi, a i fydd gwaith yn barod i chi ym mwill y Winsor,—os dewch chi nol yn fyw."

I ethon y'n tri mor ddishtaw a'r bedd. W i'n gwpod fod dwr yn llanw llicced Morgans, wath i gwelas a yn i sychu fa off â llewish i got.

"Good-luck, boys," mynta'r Under-Manager, a off yr ath a fel llechetan.

"Bachan piwr yw Mock," mynta Dai.

"Ia," myntwn i.

A gweyd y gwir i' gwnnws lwmpin bothdi size wi Plymouth Rock yn dwll y ngwddwg i.

Cyn starto mas, i ishteddson diceyn. O ni'n gweld Dai fel sa fa'n stidio, a chympohir i dorrws mas i ganu. Odd Dai yn diceyn o' fardd, a weti ennill llawer peeshin wech miwn cwrdd attrodd. O nw'n wispran fod boys yr

ysteddfota mawr a ofan Dai, a yn i gatw
fa mas o'r ring o spite. On rwng gwyr y
clecs a'u bisnas. Weetha odd i ganion a yn
ddiccon i ela ceffyl i wyrthin, on nawr, wrth
feddwl am fatal, i dynsa ddwr mas o fricsan.
Ma gân Dai.

Ffarwel i Mock yr over-man,
Ffarwel i'r partin dwpwl,
Pan greiddw'n ni y'n doi Berlin
I gaiff y Kaisar drwpwl:
Ffarwel i'r Winsor a'r glo mân,
Y cogs a'r sprags am diccyn,
Lle nesa gwelwch Shoni a Fi
Fydd yn "Red Cow" yn Berlin.

Bu Shoni unwaith yn i dro
Yn Fireman pwll Winsor,
Yn myn'd a lamp i drïo gas,
Caiff ddiccon yn y Kaisar,
Wath dyna wêd pappyrar wlad
Am Will Berlin bob amsar,
Ma fe—sdim doubt o bothdi'r peth—
Yw'r "European Blower."

"Gad i nawr Dai," myntwn i, a'r dwr yn
ryttag lawr i mocha i, "Gad i Dai bach."

"Hoult Shoni," mynta Dai, "dychra w i. Os
na allu di jofadd diccyn o fyrddoniath shwd
jofeddi di'r bwlets a'r baginets. Bachan, bachan,
cwn di galon."

"Fire away, Dai," myntwn i, "Nid jofadd
sy'n plwmpo dwr mas o'n llicced i, on gweld
bachan bach o weethwr, fel ti, yn gallu gweetho
cân, na os dim eesha i King George fod a
chwilydd i ongan i ar wal y back-kitchen,
yn Buckin-am Palace. Fire away Dai, w i'n
barod."

I gossodd dliccyn ar i ben, a ma fa off fel llysŵan.

Ma'r byd yn gwpod erbyn 'yn
Beth sydd i neyd a Blower,
'Eb wasto munad—clirio'r âr—
Roi brattish lan bob amsar;
A phan ewn ninna—Shoni a Fi—
I glirio'r âr yn Berlin,
Rown Brattish—"made-in-Wales" i'r lan
I ddiffod tân y gelyn.

"Bachan," myntwn i, "na Dyfed, a Gwili, a Job weti câl Knock-down blow. Ma'r ddwy line ddiwetha na yn ddiccon i roi snuffar ar i enwylla nw am byth. Na ddiccon nawr Dai, ne i fydd Will o Berlin yn Sant Elena cyn di fod ti'n cwppla."

"Un go tytto," mynta Dai, a off a ge fel mashine.

Ffarwel i'r pentra lle ni'n byw
Miwn lodgins am flynydda,
Ffarwel i'r ewlydd gerson gynt,
I'r dyffryn a'r mynydda:
Ffarwel i Mary Catherine dlos,
Ffarwel i Maggie Elen,—

"Stoppa nawr Dai, alla i ddim jofadd sôn am y crottesi. Put the brake on, Dai, w i'n becan arno ti," myntwn i.

"Wel," mynta Dai, yn wyrthin, "sdim diolch i fi stoppo. W i'n ffeilu cal gair i ottli â Maggie Elen."

"W inna'n cofio am ddim ond y 'Dwymyn Felen'; i gês i onno nes y mod i'n cratchan. Newita'r enw bachan, ne, gwêd—"Maggie dirion.""

"I ethot a'r gair o men i bachan," mynta

Dai, "Maggie dirion gaiff i fod. I ddechru'n yttto."

Ffarwel i Mary Catherine dlos,
Ffarwel i Maggie dirion,
I ewn i'r gad i golli'n gwâd.

"Ma i yn stop trucks to, Shoni."

"Cymmar bwyll, bachan," myntwn i, "stidia diccyn."

"Got 'im" mynta Dai, a'i licced yn dishgleero.
"Got 'im, myn yffryd i."

Ni ewn i'r gad i golli'n gwâd,
Ewn ar y "Spree" yn union!

"Na ergyd, Shoni, yn y line ddiwetha na,
na sdim eesha i fi dinni nghap i neb."

I gwanson yn syttan, a off a, ni i weelod y
pwll; i lan yn y carredge fel ergyd o fwa
sath, a chympohir i greiddson y lodgins.

YR AIL SHWRNA.

"AR Y FFORDD SHA GARDYDD."

I FOLCHSON y'n doi yn gwick, i wisgson,
a i yfson dê, a nawr pu'n o ni'n doi odd
i wêd wrth wraig y lodgins. O ni'n pocan
Dai, a Dai yn y mocan i ymlan. O'r di-
wadd i facws Dai ddiccon o' cheek i fwmlan
rwpeth.

I dasgws Mrs. Jones fel sa chi'n towli llond
sleish o gols pôth ar i thraws i.

"Beth l' mynta onno. "Jaino'r showdwrs!"

"Peedwch screchan, Mrs. Jones," mynta Dai, mor gool a chweymer. "Sdim eesha screchan. Ottin, ottin, ma Shoni a fi'n myn'd i jaino'r Welsh Ridgemant yn Gardydd y fory nesa."

I ath mas o'r gecin fel perth o ddraen, a na beth odd lefan.

"Otti ddi'n bwrw glaw?" wetas i.

"Bwrw glaw," mynta Dai, yn eetha sharp; "w i'n cretu ma 'dwr sy'n cwmpo o licced Mrs. Jones i'r bwecat yn y back-kitchen."

Ddath i ddim nol am amsar, on, pan ddath i, odd i doi licced i fel llicced scatan. Wetws i ddim, dim on staran arno ni'n doi fel sa collad arni.

"Wel, boys," mynta i, "ma'n ddrwg gen i am ddoi fachan ryspectable fel chi, y'ch bod chi'n meddwl am jaino'r fath set," a off a i sha'r gecin. I ddath nol men ticcyn yn shiglo'i chwt fel jack-a-daw.

"Mrs. Jones," mynta Dai, "Ma pob bachan ryspectable, pob bachan gworth i alan, sy'n caru i wlad, yn jaino. Dyw'r tacla sy'n catw nol ddim gworth i notisso. I ninna'n doi yn cretu ma dyletswdd pob bachan shengal, cryf, a iach yw attab King George trw wêd—"I'm your man, myn-yffrydi." I ni'n mynd sha Gardydd. Dewch chi, Mrs. Jones, i dwca i bâr o gloes o wrth wedgen y Kaiser, a i ddwa a nw'n ôl yn bresant i chi."

Wel, os do fa, i newitws Mrs. Jones, a an-odd gwpod pun a wyrthin ne lefan odd i, rwpeth rwng "Ton-y-botel" a "The March of the Men of Harlech," rwy alf an' alf. On i ddath idd i lle.

I ath y'i anas drw'r pentra fel sa chi'n tano

shavins; odd rai yn clochdar, rai yn y'n ryttag ni lawr, on pan glyw-ws y ddwy wedgen, ma i yn iwb-wb-murdar.

Raid i chi gesso lot o'r anas o bothdi matal a'r ddwy wedgen, a shiglo llaw a Mrs. Jones. Y lle nesa fydd y stashion. I ethon i'r stashion, gwanson bobo diccat i Gardydd, a miwn a ni i'r carredge.

"Right!" mynta'r guard.

"Ay, ay," mynta Dai, "Ow are you?"

"Bachan," myntwn i, "paid neyd mwnci o d'unan. Gweyd wrth yr injindriver odd y Guard."

Odd menyw fach eetha bert, a chrottin bach o bothdi petar ôd, i mab i allwn i feddwl, yn ishta yn un pen; menyw arall a diccyn o dwtch ladi yn y cornal arall, a Dai a Finna. Na'r cwmpni bob cam sha Gardydd.

"Allwn i feddwl ma Sysnag ma rai'n yn wilia," myntwn i, yn wispran yn nglust Dai.

"I trafota i nw sa' nw'n wilia French, ne German, ne High-talian," mynta Dai.

"W i'n gwpod ni, on walla ma gwell bod yn dawal; sdim shw beth a napod dynon na menywod yn yr ôs ma;" wetas i.

Sysnag a lot o dwang odd y fenyw fach yn wilia a'r crottyn, a'r ladi yn towli amall i air i miwn, allach gretu ma o Yorkshire, ne o weelod Shir Bemro, odd i'n dod. Odd y crottyn bach yn fishi yn syeno loshin.

"Os na watchith y fenyw fach y crottyn i daccith," mynta Dai: "cystal i fi roi warnin idd i."

"If I nevar to move," mynta Dai wrth y fenyw fach, "that crwt will be chokin."

Gytta'r gair ma fa yn dychra corndaci.

"Plump im on is back," wetas i.

I gitchws Dai yn scrwff i wddwg a, a i shiglws a fel tarriar yn shiglo lligotan, a i ddath y lwmpin loshin mäs.

"Thenkyw ser," mynta i, "you ave saved my boy."

"Ay, ay," mynta Dai. "It was a good job the loshin did come out, or praps the doctors in Cardiff would 'ave to give im a 'Epidemic.'"

I ffeelodd y ladi a pheedo smilan nawr.

"Bachan, Dai, ma gen ti Sysnag fel Membar o Parlamant. Wy ti weti ticlo'r fenyw fach, ar fencos i."

"Gâd i Shoni. I don't want any of your suppliments, Mr. Morgan," mynta Dai.

I wyrthinws y fenyw fach, a i wetas,

"Wot a appy lot you colliars are," mynta'r ladi.

"Ay, ay," mynta Dai, yn cwnni ar i drâd. "The carredge is gettin very stuffy mum, I bettar open a bit of the window jest to 'putrify' the air."

Wel, i gretas i y byssa'r ddwy yn cal bobo ffit wrth fel o nw'n shiglo gan wyrthin.

"O ow droll," mynta'r ladi, "a regular Malapro."

Sa chi'n gweld Dai yn lleti fel un o gilocod twrcis y Cwm.

"Gat fi'n llonydd," mynta fa. "Shoni, wy ti'n eetha sâf yn y ngwmpni i. W i weti darllan diccon ar y llyfra bach na—Mother Seigel's Syrup—idd i styffaglan i yn French a German eb son am Gymrag a Sysnag.²² !

"We ave come to the conclusion that you are two Welshmen going to join the army," mynta'r ladi.

"Ay, ay," mynta Dai, "an your conclusioning is Al at Lloyd."

I stoppws y train yn stashion Cardydd, a diolch am ynny, ne w i'n cretu y byssa'n raid cal raffa i gatw'r ddwy fenyw rag mynd yn bishes, o nw'n wyrthin o yd.

Y DRYTTYDD SHWRNA.

"YN GARDYDD."

"Otti di fag di'n sâf?" myntwn i.

"Otti, otti, cer mlan. Remembar my friend you are now in the 'Necropolis of Wales,'" odd attab Dai, "a nawr am bip ar y Marcws o Bute."

Odd na blisman tidy yn sefyll tu fâs i'r stashion, a fi gwelas a yn towli lliccad arno ni.

"Go on, Shoni," mynta Dai, yn roi eetha scwt i fi. "Go on my comrade in arms. Remembar we are two 'extinguished' men to-day. Off a ti'n straight at y Marcws o Bute."

Ma'r bobby yn dod mlan.

"Excuse me, gentlemen, the Marcws is not at 'ome."

"Not at 'ome, myn yffryd i," mynta Dai.
"Tis'nt often a pub goes from 'ome."

"I beg your pardon boys," mynta'r bobby.
 "H'm," mynta fa, yn peswch fel sa fa yn ngen-
 ol y pās, "Otti chi ddim yn y'n napod i boys?"

"I avent any, 'complexion' of you," mynta Dai.

"No recollection wy ti'n feddwl, Dai," mynta'r bobby. "Dai Jones a Shoni Morgan on tefa?"

"You ave knocked the cokernut down with the first ball," mynta Dai.

"I chi'n cofio Ted Williams briotws a Polly, merch yr Under-Manager yn mwll y Winsor?"

"Dyn-di-shefon-i!" myntwn i.

"Paid a recu Shoni," mynta Dai.

I nabyddson y'n gilydd miwn shiffad, a i gretas i na fyssa ni ddim yn cwppla shiglo deelo.

"Os ma yn y Marcws fyddwch chi'n aros eno, i boppa i miwn i gal chat," mynta Ted, "a diccon tepyg y galla i roi cwppwl o dips i chi shwd i fiafio o flan yr officars."

I fydawson a'n gilydd, a off a Dai a Finna sha'r Marcws o Bute, tafarn bach eetha omely; i geson lodgins yn gwmws, achos fod gwraig y tŷ yn gnithder i war-yn-nghyfraith Mrs. Jones y'n lanlady ni. Yno lle buon ni, fel doi bwnsh, yn smoko a wilia, nes i Ted Williams wân i beeg miwn o bothdi wech o'r gloch, wedi gwish-go yn i shuit ddiwetydd.

"All 'ail," mynta Williams.

"No," mynta Dai, "It is not all ale, we ave some portar an' cider, or wotevar your Majesty would like."

Na grottan bert diginnig yn dod miwn.

"Dinner is ready, gentlemen," mynta i.

Miwn a ni i'r dining room y'n tri.

"Ffamws wir ddyd," mynta Dai, "Duck an' green peas an' chips. Cystal i ni fyttta yn arty, walla chaiff Shoni a Fi ddim chips nes bo ni yn y Red Cow yn Berlin."

Ordson bobo "lewishyn" i ifad gyttta'n cinno, a na buzzle i chi'r Ragabites i ffindo mas beth ifson ni. Cympohir i ddath y grottan i miwn a'r pwdin.

"My purty gel," mynta Dai, "where is the conflagration?"

"Bachan," wetas i, "paid bod mor ewn ar y grottan. Ble ti'n cal y geira mawr na? Wy ti fel "walkin accordian."

"Allu di, Shoni, beedo trio'r geira mawr; w i'n gwpod beth ti'n feddwl—"walkin' concrudance" on tefa. Eesha gwel'd y lfflamma round i'r pwdin o ni."

Odd Ted yn bytta'n arty, a mynta Dai, yn winco ar y grottan, "I am afraid our butty will die from avocation between the puddin an everything."

Ddibenson, a ma'r peepa mas, ma'n well gen i beeb na shigards.

"Well, boys," mynta Ted, "I chi'ch doi yn sâf o gal promotion."

"Os cwenna i yn ddiecon uchaf i fod yn Bompadour i fydda i weti "ratifyo to infection," mynta Dai.

Smilan nath Williams.

Am wyth o ni yn y Drill 'All, buildin mawr yn acos i'r Marcws. Sa chi'n gwel'd y boys odd no, fyssach yn gwpod fod y Kaisar ar gal i setlo. Odd no un bachan o bothdi wech a dwy, slimyn tal, a chot goch gento.

"Pwy yw wna bachan a brest yn debyg i Ropin Goch?" mynta Dai. "Bachan, ma wna yn slight, walla gna nw 'fwa sath' ne 'blatur' o no."

"Eisht, Dai," myntwn i, "Usa mannars, ma'r officars yn dod."

Gytta'r gair ma'r officars yn dod a Ropin Goch yn un o nw.

I geson y'n peeco mas.

"Jest the short of men," mynta'r chief officar, "'ealthy an strong, both over six feet."

"Ay, ay," mynta Dai, "the doctor in Dinas said our institutions was all right."

"I can see your 'constitutions' are all right," mynta'r officar.

"Are you going to medjar us for shuits?" mynta Dai.

"Pass on." mynta fa.

A "on" a ni i room fach ar y law wîth. Na le! Odd y gola na ma nw'n i alw yn "indecent light," yn gneyd y lle fel gola ddydd. Ma nw'n gweyd i fod a mor ddishglar nes ma'r "Oil" weetha yn douto pun a cwnnith a ne beedo. Cympohir i ddethon mâs yn ddoi showdwr glana glapsoch chi'ch llicced arni nw ariod.

Miwn wsnoth o ni yn stashion y Western yn barod i starto i'r camp, a na growd odd yn y'n gwel'd ni off!

"Ettrych co," mynta Dai, yn pippan trw ffenast y carredge, "ar y crowd." "Ettrych ar y bloke co. W i'n cretu ma German Spy yw a, a barnu wrth i beeg a."

"Wel, ble ma di German Langwedge di?" myntwn i.

"I ro drial iddo nawr," mynta Dai.

"Eau-de-Cologne!" mynta ia.

Wimlws y bloke ddim.

"Ma rwpath yn fong Dai. Wy ti'n siwr ma German wy ti'n wikia?"

"Siwr? Ottw, ottw," mynta Dai, "wath i beeco fa lan metho i o ar bottal scent odd gytta Mrs. Jones: odd "Made in Germany" ar weelod y bottal."

"Wel, treia diccyn o French, Dai," wetas i.

"Cognac!" mynta Dai.

I shiglws y bloke diccyn ar i gôs.

"Wy ti ar i drack a Daf," myntwn i, "ma fa'n byw yn eetha acos i Ffrainc allu di fentro.

"I dreia Belgium" mynta Daf.

"Saturdach!"

I drows i roun fel wirligwgan. Belgian odd a, un o'r boys gatws y Germans nol nes i ni ddod yn barod. Y'n dyletswdd ni yw elpu'r Belgians: i wmladdson fel dynon. Na pam ma Dai a Fi weti joino'r showdws, i Ni'n Doi yn mynd i dalu nol.

Y BETWARYDD SHWRNA.

"OFF GYTТА'R TRAIN I'R CAMP."

Miwn a ni i'r train y'n doi. Lieswn sa chi gwyr Shirgar, Shir Bemro, a Shir Barteifi yn gweyd "train" a llon pen o "a." Ry depyg i chi yn i wéd a bob amser i'r merchettach sy yn cal i cwnni yn y boardin school. Na gwetwch "train." O'r gora ta, na ni weti gneyd rwy ddioni yn y'n "os" ta beth.

I wistlws yr injin. Wir ddyn ma'r gair "wistlws" yn y'n ela i 'i gofio am stori fach glywas i am weethwrs tân yn acos i ———, os sdim ots ble, os a. Rai o bydlars Shir Fynwa o nw. Odd y railway yn ryttag yn acos i lot o dai, a fel odd i'n dicwdd, i ddath dyn mas o dŷ pan odd yr injin yn passo. I gas i ladd ar y spot.

Gorffod câl inquest, on i gas y bobby draffarth mawr i gal jury. O'r diwadd gorffod iddo alw deuddag o'r gweethwrs tân i miwn ar i ffordd sha thre. I ddotwd Dai-pull-up yn foreman o ddryccioni, a fi alwd yr injinairs.

"Ti yw'r injinaire?" mynta'r foreman.

"Ia."

"Troaist ti yr 'en andle fach na?"

"Pwy andle wy ti'n wilia o bothdi fa?" mynta'r injinaire.

"Yr andle fach na sy'n gneyd i'r injin wistlan."

"Do."

"Wistlws i?"

"Do."

"Na ddiccon," mynta'r foreman.

I fu'r jury yn cwnsela am diccyn, on o'r diwadd i gwnws Dai-pull up ar i drâd a i wetws y verdict: "Wilful murdar yn erbyn yr injin, but recommended to mercy achos i bod i weti wistlan."

'En stori yw i, on sdim shw beth a anghofio petha felna.

"Ble o ni?" O ia, i wistlws yr injin—a off a ni. Cympohir i ddethon i stashion, stopws y train, a i ddath clempyn o ddyn mawr, a locsis melyn, i miwn i'r carredge. Sais odd a, o ni'n gwpod wrth i gewc a. R'un fan

i fi wêd, fuas i ariod lawar gytta'r train, dim on ddecyn o Gluttach i Bompridd, a i geso i drate wrth fynd o Gardydd sha'r camp. Pippan mäs o ni ran fwy a o'n amsar; ettrych ar y ffermydd, dishgwl ar y côd, yr atar, a'r gwiningod, a Dai yn smoko.

i notissas fod bachan y locsis melyn a smile yn woblan bothdi cîl i foch a.

"Smila di," myntwn i wrth y'n unan, "w i'n ynjoyo pippan mas trw'r ffenast ar y byd a'i betha."

"Un" wetas i, "Doi—tri—petwar—pump—wech."

"Bachan," mynta Dai, "beth di'n reckno? Wy ti'n mynd i roi gair mäs i ganu?"

"Nacw," myntwn i.

"Wel, o ti'n gwmmws 'run peth a sa ti'n mynd i bitcho tune 'Clycha Abardyfi,'" mynta Dai.

"Na saith," wetas i.

I bippws Dai mas drw'r ffenast.

"Beth sy gytta ti, Shoni?" mynta fa.

"Gweld y poor dabs na yn gorffod aros yn y câ, a'u dillad yn jibbadares, a i allwn i gretu i bod nw bron starvo. Poor dabs. A ninna'n kicco cymant o row o bothdi ffeedo'r Belgians. Startwn yn y'n gwlad y'n unen. Na number eight. Gwêl di fa? Ma wna'n wath i olwg na un o nw."

"Shoni, Shoni, ca di ben," mynta Dai, "bachan, bachan, nid ffarmwrs i nw, on' shâps dynon i ela ofan ar y brain a'r jackadaws."

"Your friend seems to ynjoy the train," mynta'r boy a'r locsis melyn.

"Ay, ay," mynta Dai, a'i wynab mor gochad a'

chrib giar odd yn mynd i ddetwi, "ay, ay, 'e as got inslamation of the brain. Look ere my man, remembar we are two showdars of the King, an we are not going to be resulted by any one."

I ddishtew-ws y boy a'r locsis, a i a' th mas yn stashion Casnewydd.

"I geias i fox wna, Shoni," mynta Dai, "a ma'n dda i fod a weti mynd mäs; fydd dim eesha ördro crownar i gatw inquast nawr."

Off a'r train, a ma stashion fach berta welsoch chi ariod yn dod i'r golwg, odd i'n flöta, o un pen i'r platform i'r pen arall. I slow-ws yr injin, a ma i'n stop.

"Ettrych co, Shoni," mynta Dai, yn pwynto'i fys at gartws jest tu fas i'r stashion, "Ettrych co, dishgw! bachan!"

"Wela i ddim on doi gart," myntwn i, "cart mawr a chart bach o dano fa."

"Bachan," mynta Dai, "ma'r tro cinta i fi weld cart bach yn sucno'r 'en gart."

"Wyt ti, Dai," myntwn i, "yn depyg i bish-in welas i yn y *Mail*, os blynydda nol. Ladi odd yn cai i symynso am gualty to chickens, peedo roi bwyd i'r tacla bach. Ma'r stori yn eetha gwir, os na wetws y *Mail* gelwdd. "A'nt you ashamed of yourself?" mynta'r Judge, yn eetha saucy.

"I thought," mynta'r ladi, yn snwffan llefan, "I thought the old 'en would give them plenty of milk."

I wyrthinws pawb yn y police cwrt.

"Wel," mynta Dai, "ma'r tro cinta ariod i fi glywad i fod i'n bosib i ti ottro giar. Ia myn yffryd i."

Na fel treulson ni'n amsar ar y shwrna sha'r camp. ! Story a story wettyng.

“Bachan,” myntwn i yn syttan, “ble ma cân
Mishtir? Cystal i fi idd i thonean i on tefa?
Beth ti'n weyd?”

“Ia, ia,” mynta Daï, “mas a i Shoni.”

CAN MISHTIR (*Can y Rhyfel*).

O Gaerdydd i ben Caerdybi
Chlywir ddim ond diarebu
Ar y Kaisar—dyn a'r andras
Rhwn a luniodd yr alanas.

“Galanastra, melldith, difrod,”
Ydyw'r hanes sydd yn dyfod,
Ar ein clustiau'n gyson, cyson,
O gigyddfa'r Armageddon.

Belgium ddiwyd a anreithiwyd,
Ei haelwydydd a anmharchwyd;
Berlin mwy a adnabyddir
Fel Gehenna fawr mewn gwewyr.

Udgorn Rhyfel a udganwyd
Draw yn Canada fe'i clywyd;
Yn Awstralia yr adseiniodd
Llais pob gwron a'i atebodd.

Yn New Zealand fe ddeffrowyd
Teimlad gwladgar—a chynhyrfwyd
Deiliaid Prydain, trwy'r bedryfan,
Rhedodd ffrwd deyrngarol allan.

Daeth o Rwsia ddewr gatrodau
I amddiffyn gwlad eu tadau;
Daeth y Cossak hyf a'i biccell
I roi taw ar fraf a dichell.

Thyn y Jap mo'i gap i Gaiser;
Gwell gan Foer ei George o lawer;
Ni fyn glewion gwlad y delyn
Blygu clin i deyrn yr Ellmyn.

Syna'r fall! Fe wrida Satan
 Tra yn gwylio y gyflafan;
 Mae'r ellyllon yn rhoi rhybudd
 Am "front seat" i Billy'r Cigydd.

Dwed pa beth, naw'r Billy'r Kaiser,
 Fu wrth wraidd y gwaith ysgeler;
 Onid trais ac hunanoldeb
 Heddyw sydd yn rhychio'th wyneb?

Onid "digter" dyn hunanol?
 Onid "trachwant" dyn annynol,
 Onid "blys" am lywio'r cread
 Fu'n dy ysu'r bodyn anfad?

Nid yw "gwaedd" y llu anghenus;
 Nid yw "gweddi" yr adfydus;
 Nid yw "ymbil" y gwyrifon
 Ddim i'th glustiau, Gaiser creulon!

Daw, fe ddaw y "Dydd," fel d'wedi,
 Fe ddaw pen i'th holl ddireidi;
 Ond ni fydd yn "ddydd gorfoledd"
 I ti'r Ellmyn' di-drugaredd.

Dydd yw hwnnw sydd ar wawrio,
 Pan i'th welir wedi'th lorio;
 Pan y' clywir llef gwareiddiad
 Yn sadseinio creigiau'r cread.

Beth? Nid "ti" sydd yn gyfrifol
 Am y Rhyfel erch andwyol?
 Am yr Uhlans, oent fel geri
 Ar ol sychu y seleri?

Nid tydi? Bydd son am danat
 Fel dy gefnder—Pontius Pilat;
 Golch dy ddwyllaw—byddent dduon
 Pe bae'r byd i gyd yn sebon.

Nero yr ugeinfed ganrif,
 Gwrando—rhaid fydd rhoddi cyfrif

Am bob Ffrancwr a Phrydeiniwr
Syrthiodd yn y gad fel milwr.

Am bob Goorka, Sikh, ac Ellmyn
Sydd o dan briddellau'r dyffryn;
Am bob gweithred hyll ysgeler
Wnaed i foddio balchder Kaiser.

Saf am enyd fer i syllu
Ar dy gampwaith, os y gelli
Fagu nerth, ah pa sawl truan
Laddwyd i foddioni "hunan."

Daw y "Dydd" bydd Tommy Atkin
"Quite at home" ar strydoedd Berlin!
Pan fydd Dai a Shoni ddoniol
Yn neuaddau'th balas breiniol.

"Wacht on Rhine" yw'th gân wladgarol,
Fe newidir hono'n hollol;
Boys Shirgar a ddon't ar garlam—
Canant "Sospan Fach" i'th William.

O! fe'th gospir di, y Kaiser!
Beth yw'r gosp? Fe ddywed amser;
Ebe Rees: rhown iddo'n union
Bymtheg mis o "indigestion."

I St. Helena, o'r alanas,
I dreulio oes o benyd caethwas;
Ebe arall—doeth ymattal—
Mae "Un" a dal—"Rhwn bia dial."

Cyfyd cri y lladedigion,
Tery ddiscord i'w freuddwydion;
Synwn ddim pe bai i ddychryn
Rewi gwaed y Kaiser cyndyn.

Fechgyn Cymru! Cofiwch Glyndwr
Gafodd gryd yn Nhreffgarn,—arwr
Siglodd wlad drwy ei bybyrwch;
Loriodd luoedd drwy wladgarwch.

Fechgyn Cymru! Fynwch chwithau
 Weled Cymru Fâd dan greithiau?
 Fynwch glywed trwst yr Ellmyn
 Yn anrheithio Gwlad y Delyn?

O Eryri, yspryd Arthur
 Danio eich gwladgarwch pybyr;
 Ni cha Kaiser a'i gatrodau
 Gochu glaswellt Gwlad ein Tadau!

"Bachan," mynta Dai, "na beth yw cân sy'n
 roi 'yspryttiath' miwn dyn, fel ma'r prygethwrs
 a'r ffeeraton yn weyd. Screggo Will o Berlin
 fydd y jobbin nesa. Beth ti'n weyd Shoni?"

"Ia, ar y mencos i," myntwn i, "i fydd na
 dwscid o bwlffagan pan gwrddiff 'My Nabs' â
 Ni'n Doi.'"

"Cana gân Dai, jest i gwnni'n calon ni."

"Right you are," mynta Dai, a i ddechaws.

"Mae 'en lâd fy nata yn anwl i mi,
 Glâd beirdd a chantorion, enwocion o fri;
 Ei gwrol ryfelwyr, glatgarwyr tra mâd,
 Dros ryddid collasant eu gwâd.
 Glâd,—gla—.

Ma i'n stop, a fel y gwetws Watcyn Wyn,
 "I gysgws a'r 'wlad' yn i enau."

Odd Dai nawr yn wrni fel un o beepa'r eggst
 ar ben pwll y Winsor, a fi settlas i i lawr,
 a'n nrâd, ar y sêt, i gal neppyn, a, am w
 i'n wpod, i slippas inna i wlad y byrddwyton.
 I welas mwy miwn byrddwyton na bippas i ariod
 a'n llicced arni nw ar ddi-un.

Byrddwyton yw'r boys am "cheap trips." O
 ni, cyn 'ir, wynab yn wynab a' Will o Berlin.
 Sa chi yn i weld a'n sprwingad wrth geesho
 dod mas o'n ngafal i! Yr arcol! Na sight! Odd
 i'n worth talu wech i weld yr olyccfa, odd myn

yffryd i. Ond—ma ergyd ar y'n ngoppa i fel sa sledge Dai'r gôf yn y'n ngyrradd i. I needas ar y'n nrad, i ddiwys Dai achos y modd i weti damshal ar i gorn a, a beth welson i on bachan o dicket-collectar yn smilan.

"Tickets, please, gentlemen," mynta fa, "You change 'ere for the camp. I see you are two gallant boys on your way to the front."

I roison y'n tickats i lan, a i catws nw, i ethon ninna i mas i'r platform. Odd i'n dywyll erbyn 'yn. Cympohir ma fachan y moto yn dod, diccon awdd i napod a wrth i ddillad lletar. I slingws y'n cwta ni ar i gefan i ddilynson a, a miwn a ni i'r moto fel doi farews.

"Bachan o wr-boneddig odd y tickat-collectar na, Shoni," mynta Dai. "Os dewn ni nol yn fyw i lieswn i gâl i wodd a i gâl dishglad o de gyтта ni yn y Marcws o Bute yn Gardydd."

"Poop, poop," mynta'r moto.

• "Right o," wetas i.

"Ay, ay, myn yffryd i," mynta Dai.

A ma ni off i ddreisiwn y camp.

Y BIMFAD SHWRNA.

"YN Y CAMP YN CAL Y'N SHAPO."

BOTHDI annar awr weti wech i dynson yn acos i'r camp. I ddotws y shaffer y brake mlân, a i stopson dwp o flân tent mawr, a mâs a ni.

"Landed, ar mencos i," mynta Dai.

I dalson bobo annar coron i'r shaffer am y ride, a bobo wech yn extra iddo gâl llewishyn ne ddoi ar ddiwadd y shwrna, wath odd i'n eetha ôr, a'r shaffer yn good short.

Ma fachan tal yn dod mlan, a ar ol dishgwl a starân diceyn, diccon awdd gwpod ma un o'r crachach odd a. On' cofiwch chi, bechgyn ffamws yw bechgyn y crachach. I ni weti bod yn i ryttag nw lawr, a sportan ar i pen nw. Odd Esgob Llundan, mynta'r pappra, weti gweyd i bod nw'n wara gormod o polò, a golf, a football. On wara teg i'r crachach. Pip-pwch ar y pappra. Pwy sy'n ledo'r showdwr's? Pwy sy'n shoutan Stick-it-Welsh? Pwy sy'n stoppo'r ambylance i cymryd nw yn ginta, er mwyn i rwy boor dab o showdwr cyffretin i gâl y chance? Pwy sy'n cwmpo yn lleepa ar fas y gâd wrth geesho catw anryttadd Pryttan Fawr i'r lan? Pwy sy'n sceepo'r Germans o'u blân? Dyrllenwch beth ma'r showdwr's bach cyffretin yn scrifenni o'r trenches. Beth? Our officar was a 'ero. Wara tég i'r crachach, ma nw weti dangos i unen yn ddynon.

O ni jest mynd i "wyl, wir ddyon." I ddath y bachan ifanc y mlân.

"Wot company?" mynta fa.

"Only Shoni an' me," mynta Dai, yn pwsho i gap 'nol ar i wecil. "You can join us if you like."

"I see," mynta'r bachan ifanc. "I don't mean that. But come along, I will put you right. W'ere are you from?"

"Dinas," wetas i, yn twymo at y bachan, o ni'n gweld ma thoroughbred odd a.

"Cardiff Welsh Ridgemant," mynta Dai.

Cyn y galla chi dowli wink, i'n arwinws ni'n doi i miwn i'r tent mawr.

"Give these gentlemen refreshmants," mynta fa, a i dowlws bishyn coron ar y cowntar. Odd y waitars yn bowo, yn scrapo, a yn syrro, sdodd yn arswd idd i gweld a'u clywad nw. Wrth fynd mas i wetws

"Ynjoy yourselves my lads, I will 'unt up the pyrticulars."

I ynjoyson, ar mencos i, pobo blatad o sossinjers, a thattws, a bobo lewishyn o ——. Cistal i gatal i ar y strokan na, ma na gymant o iwancry yn erbyn roi "rum" i'r showdwrs sy 'yd i byrddwytydd yn y dwr a'r slwdge yn y trenches. Gewch amsar i gesso'r "missin word" tra bydd Dai a Finna yn bwcherach y Germans. Os dim eesha gweyd ma nid "rum" odd a, wath dyw rum a sossinjers byth yn concordo un amsar mynta'r boys sy'n gwpod.

I ddath y bachan ifanc nol, a i welson miwn wincad ma un o'r officars odd a.

"Line B. Tent No. 2," mynta fa.

"Thenkyw ser," mynta ni gyttan gilydd, fel sa ni'n canu duett — "Gwys i'r Gad." Off ag e, a off a Ni'n Doi.

Tent o'r short ora odd a; diccon o ddillad gwely, a dim on' Ni'n Doi.

Bothdi naw odd yr ylectric light yn cal i ddiffod, a i ethon y'n doi i'r gwely. I ddi-unson fel arfadd o bothdi annar awr weti petwar, on odd i'n dywyll. All coliaris ddim peedo dino yr un amsar a arfadd, na fel ma i yd yn nod ar ddy' Shul yn y gweetha.

"Cisca diccyn," mynta Dai, "i ni'n siwr o glywad y cornat yn canu pan fydd eesha cwnni."

On cyn bo'r cornat yn canu o ni'n doi mas yn cal walk roun' i'r tent.

"Ma beth yw ffresh âr," mynta Dai. "Os dim lliwch i dicclo twll di wddwg di mas ma, Shoni, âr ffresh sy ma. I do feel the air very aggravatin' this mornin', it as made a new man o me."

"Ay, ay," myntwn i, yn ceesho scrapin diccyn o

Sysnag, "Ay, ay, Dai, I am of the same confirmation, it are ffresh âr."

Na'r bugle yn canu; a off a ni i'r ranks. Sa'r Kaisar yn y'n gweld ni, i gesa ffit. Sdim eesha gweyd beth odd yn mynd mlan bob dydd, ôs a? Drill, drill, drill. I geson y'n "drillo" nes y cretas i y byssa ni yn syrffeti ar y consarn.

Y men bothdi tair wthnos i geson y'n promoto; i gâs Dai a finna y'n gneyd yn gorporals. Un noswath i geson y'n galw i dent yr Officar, y bachan piwr ny dalws am refreshmants y noswath ddedho ni i'r camp.

"I expect a spessial lettar by train from the Com-mandar-in-Chief," mynta fa. "You are two trusty fellows, please go to the stashon to fetch it."

Sa chi yn y'n gweld ni a'n penna yn yr âr.

"Na bromotion, Shoni," mynta Dai, "i liccas i y bachan na pan dalws a am y sossinjers. Do ar mencos i."

"Right," myntwn i, "bachan piwr yw wnna."

O ni ar y ffor' nol, a yn syttan ma laish yn gweyd, "Who goes there?"

Stopson.

"Who goes there?"

I attepws Dai.

"Dai Jones, Dinas Cross, an' Shoni Morgan, Yet-y-bompren."

"Advance Dai Jones an' Shoni Morgan," mynta'r llaish, "an' give the countersign."

I sefson fel doi ddelw, a wyddwn i ar y weddal nes i'r llaish ddod mlan, a gweld baginet yn twtch a stwmog Dai, a phistol yn punto at y men i. I ath crips dros y ngefân i, rwpâth fel sa snow-ball yn

cwrso lawr i main y nghefan i, a cholsyn pôth yn starto ryttag ar i ol a i geesho i ddala fa. Sentry odd no!

"Boys 'en wlad y Brynia," mynta'r llaish, "shwd i chi?"

Ted Williams y bobby odd a, newydd gyrradd o'r train. I wetws wrtho ni i fod a weti câl i bromoto yn Liffenant, a ryngo ni'n tri odd dim gopath i'r Kaiser gal byw yn 'ir.

Fu na ddim llawar o gysseitmant am bothdi mish. On un noswath odd Dai a finna weti cal yn ela i ffarm i wilo am ddecyn o gig moch i gal i freio fa yn frecwas i'r officars. Odd na wispran weti bod am "spy" yn y camp, a notiss weti roi am i bob un fod yn wide-awake. Odd bothdi milltir i'r ffarm. Off a ni yn eetha jokose.

"Eisht," myntwn i, "ma rwy sw'n ar y law wîth. Eisht Dai."

I stopson.

"Hoch, hoch."

"Bachan na iaith German," mynta Dai. "W i weti darllan rwp'ath tepyg yn y pappra."

I symitson mlan, fel sa ni'n cerad ar wia.

"Hoch, hoch, hoch."

"Paid mwîd, Shoni." mynta Dai, "ma fachan bach o Gymro daccliff y boy. I â i i gal pip."

Odd y sw'n yn para, a i ath Dai mlan i fola'r clawdd. On i ddatah nol miwn clippad.

"Chap miwn dillad llwyton yw a, yn crippan ar i drad a'i ddeelo. Now for it comrade," mynta Dai.

Yn ddishtaw, fel sa ni yn cerad miwn slaps, miwn parlwr gwrboneddig, i nesson at y "spy." Dros y

clawdd a Dai, a ma i'n scuffle! Odd y screchan a'r gwichlad yn ddi-con i ollti pilyn y'ch clust chi

"Low tackle!" mynta Dai. "Play the game mun."

Ma i yn ddishtawrwdd.

"Cnoi efa? Kicko efa?"

Eisht-taw-son am diccyn to.

"Where's the Ryfaree?" mynta Dai. "Off side, off side." Wir ddyn allsach gretu fod football match yn cal i wara.

I netho spring dros y clawdd.

"Ere's the Ryfaree," myntwn i, yn wyrthin nes o ni jest mynd yn gatta. "Alf time, Dai."

Mas a'r ylectric lamp; fflashas y gola. Na bantomine! Beth welas i on Dai ar ascwrn i gefan yn wthi fel mecin a thwll yndi, a mochyn, bothdi petar-scôr-ar-ddeg yn twrio'r ca, yn eetha tawal.

"Co'r 'Spy' Dai," wetas i.

I gretas y ceswn i gompulsions ar y spot.

"Catw'r secret, Shoni," mynta Dai. "Paid gwêd wrth Ted, ne i fyddwn yn sport i'r camp."

"Wetas i ddim, a ma'r tro cinta i'r anas ddod mas miwn print ôr, fel ma nw'n gweyd. I'r ffarm a ni, a i geson y cig moch. Wrth fynd nol i'r camp i dorws Dai y dishtawrwdd.

"Na'r 'sell' mwya geso i yn y'n ôs, Shoni; ma arno i want mynd nol i dori scleishen o'r German spy na."

"Der mlan" wetas i, "der mlan."

Pan greiddson ni'r camp odd no alibalw o'r short ora: odd taligrafft weti cyrradd yn gwed fod y'n Ridgemant ni i fynd i'r front. Odd y boys yn ryttag o un tent i'r llall, yn gweiddu nes odd Solsbri Plain

yn ecco. I joinso'n ninna pan ddiallson ni beth odd achos y randiboo.

"Shoni," mynta Dai, "we are booked for the Red Cow in Berlin my boy as shure as nineteen pence. Cistal i My Nabs y Kaisar shâpo'i wyllys, ma na 'gome to' i fod am ladd plant bach, a merchettach, a mynwod, a 'en ddyonon. Os, ôs. I fydd William o Berlin yn gorffod shifto'i lodgins. Gobeetho ma fi fydd yn i garco fa am y wech mish cinta. Fydd bytta tin-tacks ddim yn roi mwy o bôn iddo na fydd è'n gâl undar Dai Jones' tratemant. Dim on Will a finna! Yr arcol na lle fydd circus myn yffryd i. Bachan ———."

Wn i ddim beth fyssa Dai yn wêd yn racor sa'r bugle yn peedo apto canu ar y pryd. W i'n gwpoð fod Dai yn eetha parod i gitcho yn scrwff i wddwg a, a shiglo'r anal mas o no. Ryttag? Odd myn yffryd i, pob un yn falch fod y Commandar in Chief weti'n peeco ni mas. Sdim eesha roi'r pyrticilars, on i fentra weyd tho chi, i fydd anas Ni'n Doi ar fâs y gad yn siwr o neyd i'ch gwallt chi—os ôs gwallt i gal gytta chi,—i gwenni fel brwsh câns. Fel y canws Dai, —

"Ni ewn i'r gad i golli'n gwâd,
Ewn ar y "Spree" yn union."

Y WECHFAD SHWRNA.

“MYND I SETLO SQUARS A WILL.”

I DDATH y bora, bora'r “Kick off” odd Dai yn i alw fa. Odd yr officars yn brasgamu nol a blân, a'r showdwrs yn bisnessan fel sa chi'n acos i gwch gwenyn. Wi i'n siwr fod bona clusta Will o Berlin yn ddi-con pôth i chi bopi bloaters o'u blân nw.

O ni'n câl amall i bip ar Lifftenant Ted, on wrth gwrs odd a yn y'n napod ni, a dim yn y'n napod ni ar yr un pryd. Rwy weyd bach od yw wna, ontefa? On i chi'n deall beth w i yn wilia o bothdi fa. Fel officar odd a ddim yn y'n napod ni—yn gorffod catw dish-tance, on fel pantnar odd a'n tywli amall i wink pan yn cwrlo'i fystash.

O ni'n falch i weld a fel y gwetws bachan o fardd

“Yn gneyd cest fel brest brân.”

Ma ni off yn nreysiwn y stashion!

“Cŵn ddoi dickat i Berlin,” mynta Dai, yn cellwar diccyn, a taligraffa at Will, a gwed—
“Meet me by moonlight alone.”

“Gwell peedo bachan,” myntwn i yn sportan diccyn. “Na, gwell peedo, ar mencos i, i fydd ynny yn i ddoti fa ar y watch. Na, Dai, i goleri fa eb yn wpod daliff y ffordd.”

“Daliff y ffordd, Shoni? Gnaiff walla. Os cwrddiff Will a fi, i dwlla ffordd â'r trw'r boy, a fydd dim eesha spyin'-glass i bippo ar y sers a'r planeta wettyny.”

Miwn i'r train a ni.

“Ergyd a phwff, a miwn annar wiff
Hwlti, heltar, skilt a skeltar.
Ffwrdd a ni fel raj ar baddella
Ne rês o diccella
Link lonk wrth gynffon ci.”

Pishin o waith Mynyddog, w i'n gretu odd y pishin ganas i nawr. Ma fa'n eetha pert, a yn attab y movemants yn well na allwn i ddishgrifo. Os yw y pishin yn “gopparplate,” a jail i fod am i brinto fa yn y pappra, & dim i neyd on jofadd diccyn o bunishmant. I na i wech mish yn rwydd ar ol croppo mystash y Kaiser.

Ma Southampton o'r diwadd! Yr arcol na sight! Llonga a llonga, a mastis wrth y milodd, fel sa chi'n gweld gallt fawr o gôd cinnabanes. Bâta bach wrth y cannodd, stemars wrth y milodd, a showdwrs fel crowd o forgrug, ne'r jack-i-jumpars i chi'n weld yn y câ amsar lladd gwair. Chlappas i ddim o'n llicced ar gymant o boppath ar yr un pryd ariod.

“Shoni,” mynta Dai. “Bachan ma rwwpath yn depyg i scyrSION Pwll y Winsor i Ilfran-cwn. Bachan ma soppyn o boppath.”

“Os,” wetas i, a men yn acor allsach stwffo magna bona i miwn iddo. “Os wir Dai. Ma beth yw golyccfa ar mencos i.”

Mas a ni i'r platform a golwg ffyrs arno ni, yn barod i waith.

“Fall in!” mynta'r officars.

I ddishgwilws Dai arno i.

“Fall in,” mynta fa. “I ble bachan diarth?”

I'r docks a'r dwr ôr! Dim o' di 'fall in' di my boy."

"Fall in."

Ma Ted yn dod i a yn wispran.

"All right boys."

"Ffamws," myntwn i.

"Well, 'fall in' ready to go on board the troopship," mynta Ted.

"Aros diccyn bach, Ted," mynta Dai. "Os rwy sense fod eesha mofiad i'r llong, a diccon o fâta yn secur yn y docks?"

"Cer mlan, Dai," mynta Ted, "gâd di jokes, Dai. Cofia di fod ti a Shoni yn rwy short o officars, a bod eesha i chi garco diccyn ar y showdwrs cyffretin."

"Bachan," myntwn i, "o ni weti anghofio y mod i yn gorporal."

"Same ere," mynta Dai.

Left-Right.

Ma ni off yn grôs i'r pro-mened-i, y drylla a'r baginets, a bwndal ar y'n cefna ni, fel Dai Penrhiw yn newid i lodgins.

"Mark time!"

"Sdim shalk da fi," mynta Dai.

"I beth," wetas i.

"I mark time," mynta Dai. "Ma rwpeth fel 'yn yn ela irath arno i wrth feddwl am farco drams yn Mwell y Winsor. W i'n cretu sa well gytta fi i rippo top a thori pwccins na rwy wara plant fel 'yn."

I greiddson y deck o'r dŵwadd, mor appus a doi ganary bach miwn crâge. Na randiboo! Odd i'n wath na Ffair Llwnpia.

"All 'ands on deck!"

W i'n diolch fod Ted ar y'n pwys ni pan glyw-
ws Dai y command—All 'ands on Deck. Ma
fa'n dychra recu!

"Wel Shoni," mynta fa, "This is the last
straw that breaks the camomile's back. All 'ands
on deck! No fears my boy, ma'n well gen i
'down tools' na doti'n neelo ar y deck. Beth
sy' i stoppo'r boys â'r trâd nôth na i ddamshal
ar y neelo i? On strike, mynyffrydi."

"Best joke of the war," mynta Ted. "Dewch
chi boys ma'r llong yn starto sha Ffrainc."

I sobrws Dai, a i wyrthinws pan ddiallws a
ma galw'r sailors at i jobs odd yshtyr All 'ands
on deck.

"Gen-u-ine," mynta Dai, "Ma beth yw trip!"

I fuon yn walko diccyn ar 'yd y deck i gâl pip
ar y mor, on cympohir i âth gwynab Dai fel
y shalk.

"Shwd ti'n teemlo Dai?" myntwn i.

"Teemlo?" mynta fa. "Teemlo rwpeth tepyg
i'r whale ar ol iddo lyncu Jonah—something like
a 'revolvar' inside."

I ffeelws weyd racor. Os gen inna ddim gwell
na doti dots, rwpeth fel 'yn—

.....

.....

I fydd y dots yn ddiccon o iaith i ddangos shwd
o Ni'n Doi yn teemlo ar ddychra y shwrna
sha Ffrainc, wath o ni'n gwpod fawr o ddim
am beth odd yn mynd mlan. Sa Will o Berlin
yn câl dose "extra superfine," (fel ma nw'n weyd

ar y cwta cân,) o glefyd y môr fyssa ddim want arno starto ryfal am i ôs. On, erbyn y bora o Ni'n Doi fel cricks.

"Shoni," mynta Dai, "dim racor o glefyd y môr i'r bachan ma: ma'n well da fi gerad sha Ffrainc, sa ni'n gorffod i thrafeilu ddi yn drotnoth. Bachan, odd y'n inside i fel sa rassis moto-cars yn cymrid lle no."

"Same ere," myntwn i. "Odd y men i fel sa sâr pen pwll yn drilo twlla yndo i neyd gwac-ar i ridlo glo mân."

"Shwd ti'n teemlo nawr?" mynta Dai.

"Fel y boy," myntwn i "Yn eetha parod i frewas. I alla weyd fel conductor y tramcar—plenty o room inside."

"W inna yn shapo rwpeth yn depyg," mynta Dai. "A os na ddaw 'feed' cymphir ma gen i set o ddannadd allia i i roi yn y pawnshop."

Ma gloch yn tinklan.

"Beth yw'r gloch na, Dai?" myntwn i.

"W i ddim yn gwped os nace bachan yn gwyrthi oil sy na, ma fa'r un swm a cloch y bachan sy'n gwyrthi paraffin yn Dinas."

I geson wped miwn crack; i ddath Ted mlan.

"Wake up boys, file on to brewas."

Off a Ted, a i symutson ninna gytta'r crowd.

"Arno i ofan, Shoni," mynta Dai, "ma diceyn o fwyd eetha tough sy yn y'n weetan ni, cyn bo eesha file idd i daclu fa. I dreia i gillath bock i starto."

I wyrthinas i, a i wetas ma yshtyr 'file' odd mynd mlan, rwpeth tepyg i—gwt, gwt wrth y ngwt i.

I grampws Dai yr idea, a miwn a ni i'r

room. I chi weti clywad 'aid o wydda yn cacklan wrth fyttta sôg; wel, na amcan i chi o'r row yn y room pan ô ni i gyd yn byttta. On wara teg, on tefa, llanw drams gwâg o ni.

Odd Ted weti bod yn drwmpyn unwath ytto, a weti catw bord fach roun' i Dai a fi. Coffee, a bara a 'am odd i frecwas. Diccon? O odd wara teg. Ar genol y ford odd dishgil fach yn llawn ô fwstart, a llwy yn i chenol i.

Arfadd Mrs. Jones, gwraig y lodgins, odd doti mwstart ar y'n plâts ni, na pam odd Dai yn synu wrth weld y llwy.

"All di fentro Shoni," mynta Dai, "ma style newydd o fyttta mwstart sy ma. Bobo lond llwy ar y tro. I should like to 'ave an 'exclamation' from our friend Ted."

"Wel," myntwn i, "ma let go ar lwyad Dai."

I fyttas lond llwy, i dasews y dwr o'n lliced i.

"Beth di'n llefan Shoni?" mynta Dai.

Cofio yn syttan netho i am 'en wr y nacci gâs i groci am dwccid defed," myntwn i. "Treia lwyad, Dai. ma fa'n first class."

I dreius Dai lwyad, a ma'r dwr yn tascu mas o'i lliced a.

"Beth di'n llefan, Dai," myntwn i, jest ollti eesha wyrthin.

"Llefan achos na cheso ti di groci gyttta di dacci."

Wyrthin fuo ni'n doi am amsar, a mlân a'r frecwas.

"Myn yffrydi, Shoni, sa ni eb' gâl brecwas fyssa raid i fi lyncu pâr o brops i ddal ochra'n stwmog i'r lan," mynta Dai.

I ddibenson, a ma'r cornat yn kicco row. Off

a ni, a'n anal yn y'n dyrna, a miwn wincad odd pob un yn sefyll ar y deck i gal i expecto.

"Passa di neeshad book ma," mynta Dai, "ma'r mwstart yn briweddu o 'yd, i di dâla di nol yn droring-room My Nabs yn Berlin."

Odd Dai yn fachan o natur dda, odd ddim diccio yn i anas a, a o ni'n gwpod yd a lled i fwcwth a. I ddath yr "expectation" i ben, a i geson rwpeth fel "free an' easy." Rai yn pippo ar y môr, rai yn lorchan ar y deck, rai yn cerad nol a blân. Y môr yn wyrdd, a mor smooth a billiard-table y Queens. Amall i stemar yn dod i'n cwrdd ni; a llong 'hwyla wettyny yn tackan nol a blân, yn depyg i Will Mab Ann yn i thrackan i sha thre o'r clwb ar nos Satwrn pai. Man-o-War ar ol yny.

"Dishgwyl Dai," myntwn i. "Co long gnociff dwll yn ngweelottion llonga'r Kaisar."

"Ia myn yffrydi," mynta Dai.

Chollson ni ddim golwg ar dir Lloegar yn 'ir cyn i fachan miwn cot a ribbana weiddu mas trw dromboon,—

"Land 'Ahoy!"

"Bachan o ble yw wnnw, Shoni?" mynta Dai.

"Pwy?" myntwn i, "y bachan a'r tromboon?"

"Nace, y bachan ma fa yn i alw yn Landa. W i weti clywad Dai Oi a Shoni Oi, on' chlywas i ddim fod bachan o'r enw Landa weti joino'r Welsh Ridgemant."

"Bachan, Dai," myntwn i, "Gweyd fod y tir yn acos ma fa."

"O, i ni jest cyrradd Bo-loug-ne ta?"

—“Ottin, ottin, bachan, co'r docks yn y golwg.
myntwn i.

“Ia wir ddyn, wy ti'n eetha right, Shoni. Co
nw.”

Ma'r bugles yn canu, yr officars yn ryttag,
y showdwrs yn mwstro, a chyn po Dai a finna
yn câl amsar i acor y'n lliced ma'r troop-ship
yn stoppo. Mlan to diccyn bach, a' wiw a ni
i ochor y landin' stage. Sôn am waith arn
Dwlash! Y wistlan, y stêm, an' so on, odd
gwaith arn Dwlash on rwpeth fel côr plant wrth
ochor Côr Caradog os slawar dydd.

Myn amsar o ni'n sefyll ar y landin'-stage,
showdar to showdar, fel sa Will meiswn sych
weti bod yn gneyd wal o' ono ni.

Ma French Officars yn passo i gal pip gytta'n
officars ni, a diccon awdd darllan wrth i gwyn-
epa nw i bod nw weti cal i pleso.

Form fours.—Left wheel—March!

Off a ni sha'r Barricks yn Bolougne, yn canu,
fel y Royal Male Voice, y don “Tipperary,”
yn Gwmrâg a Sysnag, yn betwar part, a ar
bwla yn annar dwsan o barts fel byssa'r 'wyl—

“O mae'n bell iawn i Gwm-y-Rhondda.”

Mishtir Ni'n Doi math y geira, a ma'n worth
i chi gâl i clywad nw. Watchwch y Shwrna
nesa.

Y SEITHFAD SHWRNA.

“RACOR O SHAPO.”

O ia, ma'r chorus o ni'n ganu.

Mae yn bell i—Rhosllanerchrugog,
 Ac i Llanfair—P. G.;
 Mae yn bell iawn—i Gwmsyflog,
 Aberaeron a Thondu;
 Good-bye Cwmyrecclws
 Ffarwel Mountain Ash,
 I ni'n mynd i setlo squârs a'r Kaiser
 A chropo'i—fystash.

I chi boys y Solffa yn diall y strokes na; ma'r dôn Tipperary a lot o jerks yndi, fel sa chi'n câl ffit o iccoops ar genol y gân. Ne a bod ni'n câl cydmariath arall, fel ma'r ffeeraton yn arfadd gweyd, fel bachan yn cal twtches o reumatics yn i drôd wîth bob dwy lath. Ma na ere yndi. Notissoch chi?

“Mae yn bell i—Rhosllanerchrugog.”

I fuas yn ceesho gan Dai i roi'r enw right ar y short ma' o ganion, y canion a'r ere. W i'n cofio'n ffresh pan ddath y gân mas ginta y'n bod ni'n doi yn ishta ar ddram wâg. Na wetws Dai y pryd tynny ma short o “Syphonated notes” o nw'n cal i galw gyttta boys yr A.C. I shiglas y men ar y pryd, fel sa ni'n douto—odd a yn ry depyg i swn syphon o soda water an' so on, a ma nw'n gweydf wrtho i ma yn

y "so on" ma'r drwg. Walla ma fa. W. i'n cofio cacwnan yn cerad ar y'n llaw i pan o ni'n grottyn, i geeso beecad nes i fi screchan.

"Beth sy'n bod," mynta mam.

"Yr 'en gacwnan ma ishteddws lawr ar y'n llaw i," myntwn i, yn para i neyd wep.

Odd y cerad yn eetha diniwad, y "so on," yr ishta, nath i fi deemlo.

On mlan o ni'n mynd. I gretas i wir ddynd, y byssa'r ffenestri yn cracco, a'r slâts yn fflyan eebo men i. wrth fel odd y boys yn rattlo'r "R"s yn Rhosllanerchrugog. I gas Dai ordars gan yr officars i newid y geira yn y chorus rag ofan gneyd damage i'r tai. I nath ghorus mor bertad ag a g'jwsoch chi ariod, i gewch done arno jest nawr. Sa chi'n gweld y merchet-tach yn tywli llicced arno ni (ar y showdars i gyd w i'n feddwl, w i ddim shwd sledge a mynd i frawlan ma arno Ni'n Doi o nw'n dish-gwl, er y'n bod ni yn ddoi fachan eetha glân).

"Are we down-'earted?" mynta un o'r boys.

"No," mynta'r Ridgemant yn un llaish, fel swn tyrfa. Os odd un yn gweiddu Dai odd wnnw. Ma officar acha cefan ceffyl glâs gola yn dod at Dai.

"Dont yell like that my man," mynta fa, "or the Crown Prince will 'ear you, an' you'll put a stop to the war."

I gwnnws gwrych Dai, i ath i wynab mor gochad a thomato. I blyccas y men, a ngên ar y mrest fel crottan fach pan yn câl shawns ar y cusan cinta, a 'w i'n gwpod fod gwyn y'n llicced i yn y golwg.

"Eisht, Dai, paid a attab: jofedda fel dyn," myntwn i.

I jofed'dws wara teg, a cym'pohir odd a'n gweiddu cystal a neb.

"Sdim use attab Officar," wetas i.

I greiddson y Barricks. Na le! Yr arcol odd no flags a ribbana o bob lliw a llun.

"Shoni," mynta Dai, "the perforation is perfection. Dishgwl ar y flags na, na beth yw sight, ar mencos i, werth i ettrych arno."

I ishteddson wrth y ford; odd poppath yn barod, te, bara menyn, teeshan gurrans, teeshan blât, jams a jellies. Odd yn bleser ettrych ar y "feed." Ma'r officars yn dod eebo, a i ath yn eisht—taw—son drw'r lle, a phawb yn clustfeeno ar i ora i gal clywad y speeches. Bachan ifanc golyccus wetws diccyn i starto. I startws i speech bothdi dychra anas y Cymry, a yna'n crippan mlan trw'r oesoedd nes cyrradd y spot yn Ffrainc lle nath y Cymro i'r Sais fyttu bwnshin o genin. Odd a'n drate wir ddynd.

"Shoni," mynta Dai, "allu di fentro fod na stwff M.P. yn y cheppyn na, os daw a'n fyw o'r ryfal. W i yn licco'i dorradd a, good short fydd a w i'n cretu."

I dwymws at i destyn, fel ma nw'n gweyd, a ma i off. I glywas bantnar i fi yn dishgrifo prygethwr odd a diccyn o gift o' the gab, i fod a'n bwrlwmu geira mas fel trochion sepon. A na fel odd 'wn. Mowcedd annwl! Mlan a ge trw'r Crimea. a Ffrainc, a Waterloo, a'r Boer War a phob war arall am wn' i. Nawr a 'yn y man, odd gento fa gwestshwn.

"Who came out on top?"

Odd a'n attab wettyny

"Gallant little Wales!"

Fe'n windws ni gyd i'r lan, fel windo gram-

aphone, a gorffod iddo stoppo o achos y randaiboo.

“Now my gallant Welshmen,” mynta fa. “I want you to make an attack, not upon the Germans, but upon the good things laid before you on the tables by the kind ladies of Bolougne. Now—Charge!

Ar ol i bawb stoppo wyrthin i ddychreison ar y bwyd, a i fytsion yn arty cretwch chi fi.

“Dai,” myntwn i, a phishyn o deeshan yn y men. “I ti'n galw enw'r lle ma'n wrong bachan. Bolong wetws yr officar, Bo-loug-ne wetast ti.”

“Wel,” mynta Dai, “Bo—Bo, Loug—Loug, Ne—Ne on tefa, Beth neyd di o na Shoni. Paid a chleppran; passa'r shigligwt na ma;—wnna sy'n depyg i jam.”

“Shigligwt!” myntwn i. “Jelly yw wna bachan.”

“Wath da fi beth yw'r enw, passa fa ma, ma fa'n depyg i'r piscotyn na yn Cwmyreclws a strings yn ongan mas o'i inside a; dere waff Shoni.”

I metho fel odd Dai yn mofyn. Wel, i fu Dai yn cwrso pishyn o'r jelly roun idd i blât am ansar.

“Shoni,” mynta fa, “ma'r peth tepycca i cyclin' track Carfyrddin welas i ariod: ma'r tam-mad jelly ma bothdi cyrradd y sixth lap, cystal i ti ganu'r gloch i fi gâl y final sprint.”

“Treia fa ar di lwy,” myntwn i.

“W i'n cretu ma'r ffordd ora, os na fiafith a wettyny i glymma gordin roun ddo,” mynta Dai.

Ma'r bytta ar ben.

"Ope you 'ave ynjoyed yourselves, my men," mynta un o'r officars.

"O ay. myn yffrydi," mynta Dai.

I ddotas i'n llaw ar i wefla fa, a i watas

"Ca di fox, er mwyn dyn, Dai, ne i di boppan di i miwn i'r guard-room cyn y diwadd."

"Right O, Shoni," mynta Dai, "on allwn i ddim peedo attab y bachan, wath w i weti cwm-rid ffansi yndo. Gobeetho ma fe fydd wrth y ngefan i pan bippa i ginta ar fechgyn y sossin-jers, a i fydd no gneua gwair."

"You are at liberty to smoke," mynta'r officar, "but first of all I 'ave great pleasure in calling on Corporal Dai Jones to entertain us with Tipperary—in Welsh."

Walla na wetas i ddim o'r blân fod Dai a fi yn ddoi dop tenor yn y Dinas Male Voice. Wel, na'r gath mâs o'r cwtin. I ath Dai lan i'r platform, a i ath yr officar i unan at y piano i wara'r ac-com-pan-i-ment. I ddechrws wara! Na wara! I gofias am beth wetws bachan bach o fardd ('en bantnar i fi) am Bowen Dwlash

"Piano bach ar bob pen bys."

A na fel odd yr officar yn wara. I ddechrws, fel y gwetas i, a ma Dai yn roi start. Odd pawb yn lliced i gyd, a'u penna a'u clusta yn acor.

Ma'r gân—

"MAE YN BELL IAWN I GWM-Y-RHONDDA!"

Llawer Cymro ieuanc aeth i Lundain ar ei hynt,
 "Stick-it" yn ei natur fu yn troi y swllt yn bunt,
 Nid anghofiodd grefydd, na chynghorion mam a thad,
 Erbyn heddyw mae yn ymladd dros ei anwyl wlad.

Cydgan—

Mae yn bell iawn i Gwm-y-Rhondda
 Ac i Lanfair P.G.,
 Awn i'r gâd yn wrol dyrfa
 Tua Berlin ar y Spree :
 Good-bye ein cariadon,
 Ffarwel Gwlad y Gân,
 Awn i setlo squârs a Billy'r Kaiser,
 A'n mynwes ar dân.

Cofia yn y frwydr am Wroniaid Cymru Fad,
 Glyndwr a Llewelyn fuont feirw dros eu gwlad :
 Yspryd Arthur ddyry nerth i'w fraich i drin y cledd,
 Dros Hen Brydain hoff ymladda'n ddewr,—yn ddewr
 fedd.

Cydgan.

Cofia am anrhydedd Gwlad yr Hen Geninen Werdd,
 Leriodd fyd pan yn ymryson ar lwyfannau Cerdd :
 Cofia eiriau Haggard ddewr am "Stick-it Welsh," a bydd
 Prydain Fawr, er gwaetha'r Huns, o hyd yn Brydain Rydd

Cydgan.

"Banllefa o gymradwyath" fel ma' nw'n gweyd
 yn y pappra, na'r anas pan gwpplws Dai i gân.
 On os buas i jest cal ffit ariod ma pryd odd i.
 Ar ol i'r clappo smootho lawr, ma'r officar yn
 cwnni. "After such a treat," mynta fa, "we
 long for more. There are English lads present,
 an' I call on Corporal Morgan to sing a transla-
 tion of the words."

"Tis a long way to Rhondda Valley."

I etho i lan i'r platform, a ma'r geira yn
 Sysnag fel y canas i nw.

Many a youthful Cymro went to London in his day,
 "Stick-it" in his nature turned his shillings pounds they say,
 Loved his home-religion, prized his parents' last behest,
 Now he's fighting bravely for the Land that he loves best.

Chorus :

Its a long way to Rhondda Valley,
And to Llanfair-P.G.,
Round the flag we daily rally,
Now for Berlin-on-the Spree :
Good-bye dear old Cambria,
Farewell sweethearts all,
On we go to settle with the Kaiser,
We've heard Duty's call.

He remembers Gwalia's heroes on the field with pride,
Glyndwr and Llewelyn who for Cambria fought and died :
Arthur's spirit still gives strength to him the sword to wield,
For old Britain now he fights upon the battlefield.

Chorus.

He remembers Gwalia's banner was one day unfurled,
Celebrating "Victory in Song" throughout the world :
Haggard's all-inspiring "Stick-it Welsh" remembers he,
And rememb'ring lets the Huns know Britain must be free.

Chorus.

Wrth beth o ni'n weld trw gornal y'n llicced
i gwnnws pob coppa walltog ar i trád i weiddu—
Bravo. A na'r lot yn joino yn y chorus. Na
ganu, wel, na fe, gesswch.

"Duty is off tobacco," mynta'r officar.

Ma ni mas a'n peepa miwn shiffad, a off yn
smoko nes odd y room fel gwaith coppor Glandwr.
Cympohir sa chi am beeco rwy un mas o'r crowd
fyssa'n raid i chi gerad o bothdi a mecin yn
y'ch deelo i wthi'r mwg bant. Miwn annar awr
odd y mwg yn ddiccon tew i chi dorri sleishes o
no i neyd carpat. I ddath yr officar roun i
shiglo deelo a phob un o ni.

"Wy ti'n gwpod Dai," myntwn i, "pwy w
i yn gretu yw y gent a'r mystash brith? Sir
Job: French, na ti."

"Efa, bachan," mynta Dai miwn stwmp,
"Efa?"

"Ia, ia," myntwn i.

"Silalce," mynta llaish fel swn ootar y Winsor. "Sir John French wishes to address you."

"Wetast y gwir Shoni," mynta Dai, "wetast y gwir, fe yw a wir ddyn."

"Men of Wales!" mynta fa. I'n camolws ni i'r cymyla.

Alla i ddim cofio poppath wetws a on ma'r winding up ta beth.

"Now that the Welshmen 'ave arrived the Kaiser bettar look out."

Na chi eira, on tefa. I ethon trwyddo ni fel sa ni'n citcho yn andles yr ylectric mashine na yn y ffeira.

YR WYTHFAD SHWRNA.

"SHOPPA DICCYN YN BOLOUGNE."

"Wi i off am dro trw Bolougne bora fory," mynta Dai, "i gal pyrnu pickshar cards i'r ddwy wedgen. Ddiwid di, Shoni?"

"Dwa i os naiff yr officars y'n gatal ni," myntwn i.

"Y'n gatal ni? Gnânt on gofyn, allu di fentro," mynta Dai.

I ofynson, a i synson pan wetwd wrtho ni fod 'awl i'r showdwr's fynd mas am dair awr trw Bolougne.

I ethon y'n doi, a i ddath Lifftenant Ted gytta ni. Sefson o flân shop o "fancy goods" yn y ffenast, ethon miwn. Odd no ladi yn ceesho bargenna a'r shoppwr ar y pryd.

"Bachan," mynta Dai, "na depyg yw'r shop-pwr ma i Mainz odd yn catw shop watches yn Yet-y-bompren; ma fa r'un gewc."

"Ma llicced da gytta di Dai," mynta Ted. "Ma fa'n depyg bachan."

I gitchws Dai miwn ornament bach o ar y cowntar idd i jidgo fa. I drows y shoppwr a i wetws yn French, "Permettez-moi."

"Pair-met-ay-mwah," i wyrthinws Dai.

"Beth ma fa'n wêd, Shoni?" mynta Dai.

"Rwpath o bothdi bytta m'war," mynta Ted.

"Eisht Dai," myntwn i, "eisht."

"I want a pickshar card," mynta Dai.

"Veuellez vous asseoir," mynta'r shoppwr.

"Wel, myn yffrydi," mynta Dai, "i fyddwn ma am fîsh."

"Catw di wallt," myntwn i, "w i'n cretu ma gweyd fod lle am 'fooze' ar y 'suar' ma fa. I wetws rwpath yn depyg i voo-sa-swâr: ma fa'n swno'n depyg Ted?"

"Otti otti," mynta Ted yn smilan.

"Shoni," mynta Dai, "ôs dim on' pop weti passo lawr trw twll y ngwddwg i o ar y gyd-awson ni y Marcws o Bute. I ro i un yn môn i glust a jest nawr."

"Coola lawr Dai," mynta Ted, "i ddiallweh y'ch gilydd miwn shiffad. - Coola lawr."

I drows y shoppwr i dendo'r ladi, on miwn bothdi munad ma fa nol at Dai.

"S'il vous plait," mynta fa, yn wên o glust i glust.

"No," mynta Dai, "I don't want any silver plates. I want a card with a pickshar mun."

"Day Kahrt?" mynta'r shoppwr.

"Beth wetws a?" mynta Dai yn werwi. "Moyn cart? Otti fa'n cretu y mod i yn dod i Bolougne i wyrthu glo? Dim fears my boy."

I dynnws Dai garden o'i bock, a fi dangosws i i'r shoppwr.

"Tres bien, tres bien," mynta'r Frenchman.

"Three 'anged!" mynta Dai. "Croca di unan, ne ca'r Kaiser."

I ath y shoppwr i room fach, a fi ddath yn ol a llond wpplar o bickshar cards.

"Right O, me boy," mynta Dai. "Wy ti'n dychra acor di licced: ma rwpeth yn di ben di bachan diarth. Bachan, Shoni, w i'n peeco French i lan fel yr awal."

I gitchws Dai miwn petar pickshar card.

"Kahtr?" mynta'r shoppwr.

"Sdim'ots," mynta Dai, "Os dim eesha catar arno i, bachan diarth, i shifta i ar y nrâd. I am takin' these. Ow much?"

I dywlws Dai swllt ar y countar, i ddish-gwilws y shoppwr ar y coin, a i rows newid nol yn arian Ffrainc. Wrth bo ni'n mynd mas, i wetws—

"Au Revoir."

"Who's at war?" mynta Dai. "Everybody mun. Ware 'ave you been brought up? All the bloomin' world is at war mun, cant you see our showdars shuits. Do you think we are blong-in to a circus?"

"Der mlan, Dai," myntwn i.

Mas a ni i steppin y drws, a'r shoppwr yn sefyll gytta ni, yn jabran a shotto'i freecha, a smilan.

"So long," mynta Dai.

"A bientot," mynta'r shoppwr yn French.

"Buan to," mynta Dai, yn troi roun a star-an. "Ar mencos i bachan, w i'n cretu ma bachan o war Llandeelo yw'r shoppwr ma weti'r cyfan. Clywast ti i 'bartin shot' a,—Buan to?"

"Ti'n gwpod yn y byd, walla ma fa wir ddyn," mynta Ted, "wath ma boys Shirgar a Shirbarteifi yn môb twll a chornal. I ddyrllenas i pan o ni'n grottyn, i bo' nw weti cwrdd a bachan o war Abarystwth yn gwyrthu sana yn acos i'r North Pole. I ganws un o'r boys a'r gwallt i'r rwpath fel yn

"Dyma ni miwn eira oesol,
Dyma ni yn mendraw byd,
Dyma Gardi efo'i elor
Weti gwyrthu'i sana'i gyd."

"Bachan," mynta Dai, "ma tone anglodd yn wna."

"Anglodd," mynta Ted, "beth di'n wilia. Elor ma nw'n galw'r consarn na sy fel côs racca yn dala'r sana.

"O," mynta Dai. "Efa wir ddyn. Mawr yw di wybôtath ti. Olive oil."

"Tanks," mynta'r Frenchman.

Off a ni i ddreckshwn y Barricks.

"Rosswch," mynta Ted. "Rosswch diccyn bach boys."

I rosson.

"Beth sy yn di lewish di, Mishtir Lifftenant?" mynta Dai. "Ma rwpath w i'n gwpod."

"Os Dai, ma fa," mynta Ted.

"Beth yw'r secret Ted?" myntwn i.

"Yn," mynta Ted, yn smootho'i fystash. "Walla na wetas i ddim o'r blan, on ma wâr i fi yn catw 'walk lâth' yn Bolougne."

"Bachan," mynta Dai, yn sefyll ar i sottla, "Wâr i ti?"

"Os, os. I briotws a Frenchman odd yn fwtlar i wrboneddig yn Shir Bemro, a ma nw nawr yn Bolougne yn i gneyd i yn Al. Stoppa, Dai, i fi gâl cwppla, w i'n gwled di bîg di yn dychra acor. Ottin ma nw. Wel, ma gwoddiad i chi'ch doi i ddod gytta fi y diwetydd ma i gâl dishglad o de. Cystal mynd nol sha'r Barricks, i na i boppath yn all right gytta'r officars. Off a chi, fi'ch dilyna i chi jest nawr, ma raid i Lifftenant gatw dishtance."

"Os, ôs," myntwn i, "os, os."

I ethon y'n doi sha'r Barricks. O bothdi doi o'r gloch o ni'n tri yn ishta yn parlwr gora tŷ wâr Ted. Na beth odd gresso, ia, myn yffryd i. Cyn tē i geson, beth odd Dai yn i alw fa yn Sham-pag-nee, rwpath tepyg i bop, ne ddiod fain o ran i liw, a eetha diniwad ar y start. Weta i ddim racor, nawr, on walla bo chi yr 'en warriars yn gwpod, a chitha'r Ragabites—fel y bleenor gollws i fochyn—yn specto. Wel, odd a'n gryfach na lemonade. Odd, odd. On' i focws dishglad o de y ddoi dwmlar cinta o Sham-pag-nee, a odd Dai a finna yn eetha clir y'n penna.

Son am ddiod fain! W i'n cofio i Dai a Finna fynd am dro sha Gardydd, ar ddiwetydd dydd Satwrn. I ynjoyson y'n unen. Do wir ddyn. I geson bip ar y docks, a nol a ni yn dawal

fach lan trw Bute Street. Ma rwpath od miwn pippo ar y mor i gwnni sichad. Os wir ddyn. Yr alan sy yn y dwr mynta'r druggistar, a ma wnnw yn apal i analiso poppath. Wel treiwch a ta os y'ch chi'n douto.

I droison miwn i rai o'r tyfarna, a wettyny, wrth ddod trw St. Mary Street, i droison i miwn i amall i dafarn yn lle shimplo un street a chwnni r'un arall.

"Treat all alike," mynta Dai, wrth droi i Queen Street. i ddrecshwn stashion y Taff.

I ethon i miwn nawr a yn y man, a o'r diwadd i greiddson y stashion erbyn y train un-ar-ddeg.

"Dishgwyl am gompartmant i ni'n unen, Shoni," mynta Dai.

"Right O Dai," myntwn i.

I wilas am un a fi ceso fa.

"Der mlan Dai," myntwn i, "Ma gompartmant genuine."

I ddath Dai, yn taeklan diceyn odd a, a miwn etho ni. I ishteddws Dai yn un pen, a i gysgws dap; i ishteddws inna yn y pen arall, a o ni'n slwmran miwn wincad. Odd newid trains y pryd yny yn Mompridd.

Ma ddrws y carredge yn cal i acor, a slimmin tal, tena, o dicket collectar yn dangos i big.

I ddiunas i.

"Tickat please," mynta fa, yn eetha saucy.

"Right O, bachan diarth," myntwn i, "Ma tickat da fi i gal."

"Let's 'ave it," mynta fa, "And wake your butty, I cant keep the train waitin."

"Dai," myntwn i, "Diuna bachan. Ma gwr-boneddig yn moyn di dickat ti."

I gwnnws Dai ar i ledorwadd, a un lliccad yn annar acor.

"'Olo," mynta fa, "'Olo bachan diarth! Pwy wyt ti?"

"Portar, portar," mynta'r boy. "Let's 'ave your tickat."

"Portar myn yffryd i," mynta Dai, yn ffwm-lan yn boccad i wascod. "Wy ti'n fwy tepyg i ddiod fain lawar. Wra, a chera'n weddol o gwick, ne i na i fwa sath o ti."

Mas o'r train yr ethon ni.

O ia, te yn tŷ war Ted, on tefa, na destyn y brecath. I ynjoyson y turn out. On, fel y gwetws gwaddan yr esgid wrth dop yr esgid ar ol i'r sprigs dreelo mas—"ma yn bryd matal," i ddath yn bryd i ninna fatal a wâr Ted. Odd i'n slashan o fenyw bert diginnig, odd i'n siwr o fod yn worth pymtheg swllt o flan y ffeerad.

Wrth gwrs gorffod i ni ifad bobo dwmlar ne ddoi o Sham-pag-nee, a wir ddyn odd a'n ffine. W i'n ffeelu diall beth sy eesha i'r Blue Ribbons gicco cwmant o row o bothdi fa, sa nw'n cal twmlar ne ddoi, w i bron yn siwr y byssa want racor arni nw. Rwy short o "uppar ten" ymlith y pop brigade, allwn i feddwl, y byssa ni'n consitro shampagnee.

Nid arath ar ddirwast yw beth wetas i, on w i'n cofio flynydda nol i "signo" mawr gymryd lle. Odd no un en frawd yn gweld i ddyfotol yn eetha tywyll, weti arfadd cal glassad i swppar bob nos, a pan byssa fa'n mynd ar shwrna ar dywydd pôth.

"Beth ga i ifad ar ol 'yn," mynta fa.

"O, Ginger Beer," mynta'r gwinitog.

"Ginger Beer?" mynta'r 'en foy.

"Ia, ia," mynta'r gwinitog.

Men wthnos odd yr 'en foy yn mynd ar daith, a i alws miwn tafarn bach ar i ffordd.

"Pint o gwrw Mrs. Jones os gwelwch yn dda," mynta fa.

"Glywas i y'ch bod chi Shôn weti signo," mynta Mrs. Jones, yn cewcan yn eetha cellweris.

"Do, do, on dewch a phint o gwrw fel arfadd." mynta Shon, "a os ôs tammad o gingar yn dic-cwdd bod gytta chi, dewch a wnw 'efyd."

I nath Mrs. Jones fel odd yr 'en foy yn mofyn.

"Nawr Mrs. Jones," mynta fa, "Ma'r gingar on tefa? A ma'r "Beer" on tefa? Wel, dotwch y ddoi at i gilydd, a na nw fel twice-one-are-two—Ginger-Beer. Ma gen i awl i ifad ginger-beer, yn ol peth wetws i gwinitog.

"Iechyd da, Mrs. Jones."

Wel, ble o ni? O, ia, bobo dwmlar o sham-pag-nee. Shigglwd llaw goo'-bye a wâr Ted, a i fydawson. Odd y Liffenant yn gorffod weetan i weld gwr i wâr.

Jest pan o Ni'n Doi yn acos i'r Barricks i wetas wrth Dai.

"Aros yn ol diccyn bach, Dai, a watcha os w i yn cerad yn straight."

"Right O," mynta Dai.

"Wel," myntwn i, "Ottw i yn cerad yn straight?"

"Ottit, ottit; wy ti'n cerad yn eetha straight, on i lieswn i gâl gwpod pwy yw'r bachan sy gy-ta ti." mynta Dai, yn wilia fel sa marblan yn i ben a,—“Ottit, ottit.”

"Bachan, snêb da fi," myntwn i.

"W i'n gweld doi, myn yffryd i," mynta Dai.

I welas fod y Sham-pag-nee weti cwnni i gop-yn Dai.

"Arno i ofan di fod ti'n dychra gweld yn ddwpwl," myntwn i.

"Dwpwl ne beedo, eetwn i ddim llawar colli turn i gal mynd i de i dŷ wâr Ted ytto, Shoni," mynta Dai.

I gitchas yn i fraich a, a miwn a ni i'r Barricks. Ma'r bugles yn canu cympoir, pawb yn ryttag i'r ranks, a ma officar yn gneyd speech.

"Prypare to move to the base to-morrow," mynta fa.

"Cystal ela taligrafft at Will i Berlin, i weyd y'n bod Ni'n Doi yn dod i gal dishglad o de gyttfa a Mrs. Kaiser," mynta Dai.

"Na," myntwn i, "Y ffor' ora yw roi surprise i My Nabs."

Erbyn y bora odd pob un yn barod i starto i'r base.

Y NAWFAD SHWRNA.

“NOSWAITH O GONSITRO.”

Y NOSWAITH na, o'n Ni'n Doi yn ishta yn room y gwely; Dai yn shino'i ddryll, yn ishta ar weelod y gwely, a finna yn gomffwrddis yn ynjoyo'n unan ar en fox sepon. Odd dim llawar o glepar yn mynd mlan ryngo ni, o nacodd—odd i weti dod yn amsar prysur—gwynepu'r ryfal yn i fan gweetha.

“Ma diccyn o jobin o'n blan ni nawr, Dai,” myntwn i.

“Os, ôs, ma fa w i'n gwpod,” mynta Dai, yn para i rwbbo.

“Diccyn o 'edin galad, Dai,” myntwn i.

“Ia, ia,” mynta Dai, yn gwascu i ddwy wefus mor dÿn a chorcyn miwn pottal bop. “Ia, ia, bachan.”

“Ma arno i ofan bydd raid uso dinah-mite,” myntwn i.

“Diccon tepyg,” mynta Dai.

“Peth onatw yw ryfal, Dai,” myntwn i, “i fydd yn ddobbino ar lawar i boor dab.”

“Bydd diccon tepyg,” mynta Dai. “Passa'r garrag oci na ma: passa'r garrag oci, Shoni”

I bassas y garrag oci.

“W i'n cofio clywad ffeerad yn prygethu bothdi dychra'r ryfal, a yn gweyd geira fel y geira wetws

John Bright. I cofias nw'n syttan. Ma nw," myntwn i, "ar bishyn o bappar.'

"Half the people that talk about war have not the slightest idea what it is. In a short sentence it may be summed up to be the combination and concentration of all the horrors, atrocities, crimes, and sufferings, of which human nature on this globe is capable."

"Na beth odd gweyd," mynta Dai.

"Ia," myntwn i, "On pwy ddechrws y ryfal ma?"

"Will o Berlin," mynta Dai.

"Pwy benniff i?" myntwn i.

"Ni'n Doi." mynta Dai, yn rwbbo'r baginet nes odd a'n dishgleero. "Ni'n Doi, Shoni, os nacw i'n cam-syniad."

"Beth ma'r Germans yn i gretu." myntwn i, "Na ôs dim awl da neb i fyw os nag yw a'n Deuton. Na Ni'n Doi mas o ni, Dai. I ni fel glâd yn wmladd dros gal wara teg i wletydd bach fel Belgium, am gyfiawndar, am gal awl i fyw. Ottin, ottin, Dai, a i wmladdwn dan ganu."

"Passa'r garrag oci na nol, Shoni," mynta Dai, "I fydd y baginet cympohir mor sharpad a nyttwdd. Pan gwrddiff Will o Berlin a blan wn i fydd yn ffeulu diall pwy sy'n i gocclish a mynyffryd i."

Sharpo'r baginet odd Dai o 'yd.

"Dan ganu" myntwn i, "Ia, Dai, fel y gwetws Mishtir Ben Davies, y canwr mawr na, ar ol bod yn canu i'r poor dabs yn yr ospital,—

"They are 'appy with only one arm or one leg an ar thankful they ware not blown to pishes."

“Glewion wlad y Brynia!” mynta Dai. “Gwetws Mishtir Ben na bachan?”

“Do,” myntwn i.

“Wel,” mynta Dai, yn stoppo'r garrag oci, “Wy ti'n gwpld fod diccyn o fyrddoniath yn y ngôpyn i, a i weta am y Tenor o Bartawa—Ben —D—getic. Wy ti'n gweld y point?”

“First Class, Dai, wir ddyn,” myntwn i. “Cistal mynd sha'r gwely, i fydd y clarinet yn kicko row cyn dydd.”

“Aros diccyn bach Shoni,” mynta Dai, “ma pwt o bennill da fi.”

Ffarwel Bolougne,
We shant be long,
Fore ketchin Will the Kaiser;
I shafa'r Bwtchwyr,
Gna wir ddyn,
A'r baginet yn razar.

O ni'n strippo'n doi pan ddath sw'n trad i'n dish-turbo ni; i etho i acor y drws, bippas mas, a beth welas i on showdwrs yn mynd a cheppyn i'r guard-room. I wisprws un o'r boys ma German Spy odd a.

“Ma wna'n saf am gwad,” myntwn i.

“Otti gobeetho,” mynta Dai, “on ar mencos i ma boys y'n Llywotrath ni yn eetha slack o bothdi German Spies. Ma nw'n gweyd i bod nw wrth y milodd yn y'n glâd ni o'yd. Na beth odd pob German Waitar—Spy. Ma eesha clymu lot o foys y'n Llywotrath ni yn soun wrth gwppwl o German Spies am bothdi mish.

“On, cwestshwn y dydd yw—Beth neir a Bill y Kaisar.”

"Walla gwetiff Will na odd a ddim yn rysponsible am i showdwrs meddw," myntwn i.

"Gweted Will beth wetiff a," mynta Dai. "No go my boy. You William is the gaffar, weta i, and so look out for your mystach."

I grafws Dai i ben am diccyn bach, on cympohir ma fa'n cymryd swm, a yn pitcho un o ffancy tunes y Prif Winitog.

"BETH NEIR A BILLY'R KAISAR."

Beth neir a Billy'r Kaisar
 Ia, dyna destyn byd,—
 I feddwl diccyn arno,
 A gneyd—ma'n eetha pryd;
 Prioti'r cecryn creelon
 A phetar gwraig r'un pryd,
 Câl petar mam-ynghyfrath
 I greepo'i wallt o 'yd.

Cystal i chi'r "top tenors" ddala mas diccyn ar ol "mam-ynghyfrath" er mwyn i'r 'en wraceddd i gal amsar i greepo, ontefa?

"Bachan, bachan," myntwn i, "beth fyssa anas Will wettyny? Fyssa dim blewyn ar i ben a cyn pen wthnos, a i fyssa dangar i'r cooks yn i balas a idd i fistako fa am bledren o lard."

"Wel," mynta Dai, "i newitwn y dune."

Beth neir o Billy'r Kaisar, ser?
 Wel, nid cal dant am ddant,
 Ma ynny yn ry dda i un
 Fu'n tori deelo plant:
 Na, saethu shot, bob dydd, nawn i,
 A ynta'n soun' wrth bren,—

Gan ddychra wrth fys bawd i drod,
A lan i goppa'i ben

"Bachan, bachan, stoppa wir ddyn," myntwn i, yn wyrthin nes o'n i'n shigglo. "Stoppa, ne wy ti'n siwr o weetho gwacar o My Nabs."

"Ia, Shoni," mynta Dai, "Os dim yn ry ddrwg i un sy'n spwylo byd; ma Wil bron ela Ewrop yn garlibbwns, fe a'i officars, w i'n doti'r lot yn yr un cwtin."

"Go on Dai," myntwn i, "mlan a ti ar mencos i."

"Ia. Shoni," mynta Dai. "Ar ol y 'muskatel practice' fel ma'r showdwrs yn galw diccyn o seithu at dargat, wettyny i brynswn fecin dwpwl powar, a chwppwl o boun's o beepyr, a fi wthwn y peepyr trw'r twlla am bothdi wthnos."

"Stoppa wir ddyn," myntwn i, "Wy ti'n greelon dychrynlyd; wyt mynyffrydi. Wy ti'n ela âth trw'n ngefan i."

"Ath! Beth di'n gleppran?" mynte Dai. "Faint o âth ma'r mynwod a'r plant bach yn Belgium a Ffrainc weti deemlo? A sdim eesha mynd mor bell. Cer i Scarbro, cer i Yarmouth, cer i Llundan. Beth am dywli bombs at rai odd ddim miwn dillad showdwrs? Beth am shinko llonga yn yr Irish Sea? Beth am ollwn' torpedo at Ospital Ship? Play the game William weta i. Sdim awl gytta neb on showdwr i seithu, a w i'n beccso diccyn o bothdi Will mab Ann."

"Beth o bothdi Will mab Ann," myntwn i.

"Wel, wy ti'n cofio'r German ni odd yn catw shop watches yn accos i'r Yet?"

"Ottw, ottw," myntwn i, "Wad y mlan."

“I ath Will mab Ann a watch i dacci iddo i gal i thaclu ddi i fynd; i cas i nol, a cherws i, byth. I symitws y bloke cyn pen wthnos, a ma Will weti tyngu, y lladdiff e fa, ne rwy German arall. Nawr, be sa ynny'n diccwdd? I gesa Will gwrt marshall, a'i seithu miwn gwâd ôr.”

'Sdim eesha i ti feccso Dai,” myntwn i, “fyssa'n raid i Will mab Ann gal diccyn o 'dutch courage' cyn y mentra fa gitcho miwn dryll. Rwpeth tepyg i stori'r ligotan fach fyssa anas Will w i'n gretu.”

“Beth yw'r stori'r ligotan Shoni? Gwêd i.”

“Myn depyg,” myntwn i, “fod bothdi anar dwsan o'r 'young swells,' ma nw yn i galw nw, weti cal gwoddiad i dreelo noswath yn rooms bachan odd a diccon o 'goin.' Odd no swppar ffirst class yn i aros nw a diccon o whisky a port wine, a Sham-pag-nee-

fytson a i ifson amsar bytta, a i ifson a i smokson am oria ar ol ynny. Bothdi un o'r gloch i ddechreuson fatal, a cymphir dim on gwr y tÿ odd ar ol. I ddath i was a i gliro'r ford, i ishteddws y swell ifanc i gal y 'final lap' fel ma nw'n gwêd. I gwnnws miwn amsar, a i geeshws i thrackan i sha drecshwn y room gwely. Struggle odd i, ar mencos i, wath odd John Barleycorn weti bod yn interfero a'r taligrafft odd o'i ben a idd i drad a. Odd cwmant o sense a odd yn i ben a yn wispran—cer i'r gwely, ond chesa'i drad a ddim 'chance' i dderbyn y necas. On i gwnnws, a fi geeshws fwfyd, on yr arcol, i gnoews yr annar pottal whisky, odd ar ol, i lawr, a i ddath y whisky i mas nes gneyd pwll yn bach ar y llian bord. I gadewn ni i'r boy i ffindo'i ffordd sha'r gwely, i ni weti cwppla ag e.

☉ Miwn twll yn y wal odd lligottan fach weti bod yn pippo ar y party, a want diccyn o'r feed. Ma i mas o'r diwadd, a lan i ben y ford. Wrth fynd o un

briwsionyn i'r nall i ddigwyddws lysco'i chwt trw'r whisky. I stoppws! Ma'n depyg na all lligotan ddim jofadd cwt gleeb. I liws i chwt. I goccws i phen, odd rwpeth yn eetha nice yn i flas a. I lyscws i chwt o bwrpas nawr, a i lliws a'n sych ytto. Na'r performance fu am ddecyn, on o'r diwadd i deemlws ddecyn o'r effath. Yr arcol i stoppws, i ishteddws ar i thrad ol, a mynta'r lligotan fach—"Now, where is the bloomin' cat?"

Na beth ma nw yn i alw yn "Dutch Courage" Dai, a i fydd eesha llawer i dro roun i'r poun' ar Will mab Ann cyn y mentriff a daclo German. Nawr Dai, os ôs racor o fyrddoniath gyttta ti mas a ge."

"Stori fach eetha bert," mynta Dai, "a ma i siwr o fod yn genuine, wath ma'r pappra'n gweyd ma trw gal i drencho a brandy ne whisky, ma'r showdws o Germany yn macu diccon o blwck i wynepu'n boys ni. Nawr am shâfad i My Nabbs ytto, a yna sha'r gwely."

Gneyd "Records" o'r wylofan,
 A o'r screchfeydd i gyd;
 O "swn y shells" fu'n llosgi
 Eglwysi perta'r byd:
 Eu roi miwn gramaffôn nawn i,
 Cloi'r Kaiser a'i holl griw
 Miwn chains, miwn room, i wrando
 Tra bydd 'r en set yn fyw.

I sobras i wrth glywad Dai. O ni'n cofio geira'r Yshgol Sul o bothdi madda i'n gilydd. Ar mencos i i gatwas y meddwl yn dawal, wath rwng sharpo'r baginet a gneyd pynnillion, odd Dai weti mynd mor werw a Welsh tarriar o flan casgan a mochyn daiâr yndi.

"Paid ettrych, Shoni," mynta fa, "ma meddwl am yr avoc weti'n ffyrnico i. I jibetson lond ca o'r

taccla sa ni'n cal 'alf a chance. Der sha'r gwely."

I ethon sha'r gwely, a w i'n siwr ma byrddwyto am Germans fuo ni drw'r nos. I gysgson yn first class, a Ni'n Doi odd y cinta i attab y bugle bora wettyny. Odd na fwfyd o bothdi, a ar ol brecwas dda i startson sha'r stashion. I miwn i'r carredges, a phawb mor appus a atar y to o flan cwtin feed yn stappla cyffyla'r Winsor.

Odd merchettach a phlant Bolougne yn y stashion wrth y cannodd, a phob un yn becan am dammad o strap, ne neepan, ne fwttwn, ne rwpath. I ddath gwr war Ted i weyd goo'-bye efyd.

"Vive L'Angleterre!" mynta brawd yngyfrath Ted.

"Ay, yndeed," mynta Dai. "I am of the same conclusion. I am afraid these boys an' gels will "tare" everything off. Bachan, Shoni, os na stopiff y merchettach ma, ma arno i ofan bydd raid i fi gal llond dishgil o bast, i basto nillad at i giddil, fydd dim bwttwn ar ol cympohir."

Trw lwc i startws y train, a off a ni, ne w i'n cretu y byssa raid i Ni'n Doi wmladd a Will o Berlin yn y'n cryssa nos. Off a ni yn nes at Will. Vive L'Angleterre!

Y DDECFAD SHWRNA.

“YN NES AT WILL Y KAISAR.”

O FF a'r train a ninna'n canu “Mae yn bell iawn i Gwm-y-Rhondda, ac i Llanfair P. G.”

“Bachan,” mynta Dai, “Beth yw'r P.G. na?”

“Wn i yn y byd, os nacce Pottin' Germans yw a,” wetas i.

“Wel, na fydd i, Shoni,” mynta Dai, “Di ni ddim yn cal llawar o amsar i gal spel ar y partin' dwpwl nawr. Ma rwy ddrams gwag o 'yd yn weeto i gal i llanw, on nes at Will i ni'n mynd. Ma'r shifto o bothdi ma y'n ela i i gofio am Dai Evans pen steps.”

“A finna 'efyd,” myntwn i, “Shifto o 'yd odd anas Dai.”

“Ia, ia,” myntwn i. “O nw'n gweyd fod y ieir a'r cilocod weti arfadd cal i shifto o dŷ i dŷ mor amal, sa nw'n on' gweld furniture van yn dod yn aco's i'r tŷ, o nw'n ryttag i'r back yard, yn cwmpo ar i cefna a'u bagla i'r lan yn barod i'r dynon i glwmi coesa nw.”

“Na fydd anas Will, cymphir w i'n gobeetho,” mynta Dai, “a fi glwma i i fagla fa with a vengeance.”

I wyrthinws Dai, a mynta fa.

“Rwy short o Arry Lauder fyssat ti, Shoni, sa ti'n cal cwnnad ar gyfar y Music 'Alls.”

"Right O," myntwn i, yn canu "Mae yn bell iawn i Gwm-y-Rhondda."

"Ettrych ar yr ecclws na yn yfflon jibbadares! Dishgwl ar y fferm co," myntwn i.

I ddishgwilws Dai.

"Na effath German Kultur," myntwn i.

"Beth yw wnw bachan, rwy freed o ffowls," mynta Dai yn wyrthin.

"Wel, nace Dai," myntwn i. "Nid ffowls efyd, on raid lwo y mod i weti darllan yn y pappra lawar gwaith am German 'foul' deeds. Nace, Dai, anodd gwpod beth i weyd; rwy short o grefydd allwn i feddwl yw Kultur."

"Short yw i, myn yffryd i," mynta Dai. "Rwy grefydd od syn dishtrywo Cathedrals, a phalasa, a tai y Belgians bach; yn lladd 'en ddynon a gwallt fel eira, a phlant bach wrth y cannodd. Os short o grefydd yw Kultur catwad Billy'r Kaisar i yn i fambox ar men-cos i. W i ddim yn i mofyn i, there you John Morgans."

"Arno i ofan fod peth o no weti cyrradd y wlad 'on, eeshws," myntwn i.

"Weti cyrradd bachan! Wel ma fachan bach gymriff i nockelato y shawns ginta gaiff a, yn lle bo fa yn citcho'r complaint. Sa well da fi gal y lumbago, ne sciatica na'r clefyd na, wath myn yffryd i, 'clefyd' yw crefydd o'r short."

"Otti, Dai, ma fa weti cyrradd. Na beth yw ighar criticism a'r New Threeology fuws fel influenza drw bwlpitta'r wlad os blynydda nol. Rwpath o Germany mynta nw. Odd y boys ifanc a'r gwallt cwilog a'r trilby 'at, a'r chaps ifanc a'r colars roun a'r Jim Crows a'u lliced ar fynd yn ffeeraton, want roi treial i'r 'made

in Germany religion 'ma. On' short o dân shav-
ins odd a, a i ddiffotws. Ma lot o'r prygethwrs
a'r ffeeraton a teitla made in Germany, Ph.D. an
so on. On' cofia di w i'n gweyd dim yn erbyn
y teitla ma'r boys, ddiicon tepyg weti gorffod
passo saminations eetha calad. "Ottin, ottin."

"Wel" mynta Dai, "I wetast fod Will o Ber-
lin a'i officars weti setlo ela'r medals geso nw yn
Mryttan yn ol. Os netho nw, i gingora i'r boys
sy weti cal teitla o Germany, idd i bwndlo nw'n
nol er mwyn bod yn quits a Will."

"W i'n cretu," myntwn i, "fod rwpeth tepyg
weti i anar setlo. Ta beth, ma rai o foy's y
cwrdda yn gwed na randawa nw ddim ar bry-
gethwr ne ffeerad yn prygethu os ceso nw i teitla
o ffactri Will o Berlin. A beth sy miwn teitl? W
i'n cofio am gwrdd politics yn Rummy a lot o'r
big bugs, yr M.A.'s a'r D.D.'s, a felly yn y
blan yn brygawthan. On', ma fachan bach o
weethwr yn cal i alw i wilia.

"Ma eesha diccyn o gymshon," mynta fa, "i
gwnni ar y nrâd i wilia yn goeddus yn ngenol
dynon y dygrees. On walla naggich chi'n gwopod
fod teitl da fi. Os, ôs. I alla i scrifenu C.C.,
wrth gwt y'n enw. Pan aptwch chi scrifenu
ato i o 'yn i mas, cofiwch ddoti—'John Jones,
C.C.'" Cystal teitl a un sy ma 'eno. A pheth
arall, i alla i ddangos o leia wyth o fedals nill-
as i wrth gal y dygree o C.C. C.C., o ia!
Comman Coliar—a wyth corn caled ar y neelo i—
wyth o Mabon's Medals."

I fath yn wâ, wâ, drw'r cwrdd.

"'Ear, 'ear, ar mencos i," mynta Dai. "Wy-
ti a fi Shoni a Systificats o'r colledge na, on'
ottin i? Eetha right. Pwy eesha mynd sha
Germany i foy'n crefydd a gwell stwff da ni
yn nre."

“Allwn i weyd racor, Dai,” myntwn i, “On i weta fel y prygethwr o dop Shirgar—‘Nis ymelaethaf.’ Bachan i ni’n tynu yn acos i’r Base siwr o fod, on alla i ddim peedo (cofio stori—“Nis Ymelaethaf.”

“Beth yw onno? Mas a i Shoni,” mynta Dai, yn glusta i gyd.

“Gwinitog miwn cwrdd,” myntwn i, “yn brygethwr da, a ’en wraig, odd yn eelod da fa, yn cretu nag odd dim o’i short a i gal. Na brygethwr, mynta i, yw y’n gwinitog ni. Ia, chi.”

“Twt, twt,” mynta bachan odd yn diccyn o wag, “Twt, precath o bappyr sy da fa.”

“Nace, nace,” mynta Mari, yn werwi.

“Ia ia, watchwch a, Mari,” mynta’r wag.

“Gna,” mynta i, “i â i ochor y gallary dy Shul nesa.”

I ath Mari fel y gwetws i, a i ddychreus y gwinitog i brecath cymphir. Purnawn pôth odd i yn yr ’af, a gorffod acor ffenast sha cefan y pilpit. Cyn diwadd y brecath i ddath pwff o wynt yn syttan a fi wthws rai o ddail y brecath mas drw’r ffenast. Chollws y gwinitog ddim o’i ben, on i wetws yn eetha (cool.

“Yn bimfad ac yn ola,—on nis ymelaethaf.”

I gwnnws Mari ar i thrâd ar ochor y gallary a i wetws,

“Sdim diolch i chi, ser, ath y’ch pimfad ac yn ola chi mas drw’r ffenast gyttta pwff o wynt. Do, do, wath i gwelas a’n mynd yn fflyan.”

I ddicciws wrth y gwinitog, a rwng poppath fi wnw ddim yn ’ir cyn cwnni i back ar i gefan, a mynd i wilo am dalcen arall.

I stoppws y train am diccyn, o eesha ’ewl glir, a na ni’n cal pip ar y North o’ France.

Odd dim llawar o ol clocs y Germans i weld : o nw weti cyrradd 'yd at 30 miles i Paris, on weti gorffod troi nol, a odd genti nw fawr amsar spar i ela clecs na gneyd avoc. O nw'n ry depyg i Mock Cefan-Bryn yn ryttag sha thre achos fod taro Ty-Coch am stidio pattrwn i drow-sis a. I wistlws yr injin a off a ni.

Yn fora, cyn bo'r oil weti clippo'i licced, o ni'n landed yn y Base. Mas a ni, boys yn ryttag i shigglo deelo ; motors yn toot-toot ; show-dwrs fel gwllith y bora wywrddydd, fel i ni'n canu yn y cwrdd ; tramcars o Piccadilly ; cyffyla, da, a phoppath allach feddwl am dano—shang-di-fang drw i gilydd.

“Ma ni,” mynta Dai, yn stretcho'i freecha. “Ma ni, bachan, yn y Bath an' West of England, Shoni.”

Tents fel mush-rooms, mwg fel gwaith tin Llan-elly, a phob un ar i ora yn ceesho ffindo mas ble odd a i fod. Diolch am Ted ; i ddath “my lord,” a fi'n arweenws ni i'n lodgins, a odd yn dda da ni i gal snwffan diccyn ar smell soup.

I geson diccyn o gleppran am awr ne ddwy, fel y gwetws yr officar penna, i gal jest napod i'n giddil.

“You will be comrades soon in the trenches,” mynta fa. “Form a comradeship now that will make you stick it to the end.”

O Ni'n Doi yn smoko yn eetha jokose pan ddath bachan o Sais ymlan.

“Pwy yw wn, bachan?” mynta Dai, “ma fa'r un drawad a Mockyn Brattish.”

“Ma fa,” myntwn i, “Ma fa'n shotto'r 'en drôd wîth na yr un spit a Mock. Otti wir ddyn.”

Ma'r boy yn dod mlan.

"Ow are you?" mynta fa; "ave you got a bit of bacca to spare. I ave left my pouch on the sheffoneer in Bolougne."

I dwymson at y bloke miwn wincad, os' dim yn well na diccyn o joke i symento calonna. O nacos

"Ay, ay," mynta Dai, yn estyn i fox bacco. "Elp yourself mate."

"We might as well smoke bacca together now," mynta fa. "it is the smoke of Black Marias we'll ave soon."

"Black Maria?" mynta Dai, yn staran. "Otti onno ma ta?"

"Pwy?" wetas i.

"Black Maria?" mynta Dai, "Bachan, wy ti ddim yn cofio yr 'en fenyw ni odd yn byw yn dÿ top Queen Street? Odd i'n arfadd gweetho ar ben y tips. Ia, allu fentro bod i ma."

"Bachan, paid wilia nonsance, Dai," myntwn i.

"Nonsance? Black Maria o nw'n galw onno. O nw'n gweyd i bod i mor frwnt, y byssa raid cal un o'r lamps na sy gytta'r paintars yn crafu paint off o ar y drws, cyn dychra i wmolch i."

"Sdim mynwod yn wmladd bachan." myntwn i.

"Wel," mynta Dai, "walla gwetid di nag ôs Jack Johnsons yn wmladd."

"Wot is Black Marias an' Jack Johnsons?" myntwn i.

"Cannons my lads," mynta fa.

"O," mynta Dai, "She is not a ooman then?"

"No, of course," mynta'r Sais. "I am blowed,

you Welsh chaps can sing an' fight; but aftar all you are conundrums."

Ma Dai ar i drad.

"Wot!" mynta fa. "Wot! You call us conundrums agen an' I'll knock you into small coal."

Odd i got a off miwn wincad.

YR UNFAD-SHWRNA-AR-DDEG.

"OFF SHA'R TRENCHES."

O IA diccyn o scwffwl rwng Dai a'r Sais, on-tefa, ddibenws y ddecfad shwrna. Wel, mlan a'r anas ta. I needas i ryngo nw; i fyssa Dai weti tynu'r bachan yn ribbana ton bai i fi geesho doti brake ar i fashine a.

"No offence old chap," mynta'r Sais.

"Can I fence?" mynta Dai. "I ddangosa i ti pun a alla i fensio ne beedo. Galw di Conundrum arno ni to, a fi di ddota di ar asewrn di gefan yn cellar Will o Berlin. Sa mas."

Ma Ted yn dod.

"Be sy mattar, Dai?" mynta Ted. "Wy ti fel bull-tarriar."

"Y bachan ma' alws Conundrum arno ni," mynta Dai, a'i wefla'n ffroth i gyd.

I wyrthinws Ted.

"I only said," mynta'r Sais, "that the Welsh chaps can sing an' fight an' that they were Con-undrums."

"Dai bach, gwisg di got; talu compliments i ni y Cymry ma'r bachan. I ni shwd ddynon od a out-of-the-common ma'r byd yn ffeelu'n deg a'n diall ni. Ffeelu diall shwd i ni'n gallu canu a sportan, a galavântân pan ma'r shells yn fflyan fel cessar o bothdi'n penna ni. Ddim yn diall y bachan o ti Dai, fel Shân fach a'r prygethwr. Myn depyg fod y grottan fach weti cal ffrock newydd; y ath i'r cwrdd, a odd prygethwr diarth yn 'oli'r atnota.

"Pwy a'ch gwnaeth chwi?" odd y cwestshwn gath Shân fach.

"Mari Jones nath y corff a mam nath y godrau," mynta Shan fach, wath y ffrock newydd odd yn llanw i phen i. Shigla law a'r bachan."

"Shiggle," mynta Dai, yn estyn i bawan. "Shiggle mun."

I shiglws y bachan law a Dai, a na lle buo nw yn smoko miwn heddwch unwath ytto.

"I pity the Kaiser," mynta'r bachan, "when our friend meets him. It reminds me of the story of the Deacon."

"Wot's the story?" myntwn i.

"A deacon in a well known church was seriously ill. As he was very popular among the congregation, a notice was posted in front of the church, to inform his friends of his condition. It read:—

"One o'clock. Deacon Jones very ill."

"Two o'clock. Deacon Jones is worse and sinking rapidly."

"Three o'clock. Deacon Jones dead."

A wag passing by that evening read the notice, and, seeing no one in sight, added at the bottom :—

“Seven o'clock. Great excitement in heaven. Deacon Jones has not yet arrived. The worst is feared.”

When our friend meets the Kaisar there will be some feathers flying about. Mrs. Kaisar will probably put a notice up :—

“The Kaisar has not come home to tea. The worst is feared.”

“Bachan cloi yw wn,” mynta Dai. “Shiggle 'ands agen myn yffryd i.”

I fi Dai yn ddishtaw am diccyn, odd a weti gweld i gamsyniad. On i glosws at y bachan a na lle buo nw'n wilia fel sa dim weti diccwdd. Fel ma petha bach yn starto petha mawr on tefa, o eesha diall y'n giddil. Na fel buws i gyttar par ifanc odd newydd brioti. Gwr ifanc yn dod miwn i'r tŷ o'r ardd, y wraig ifanc yn gweyd :—

“John, cwnnwch y shishwrn na sy ar 'sill' y ffenast a dewch a fa i fi.”

“Shishwrn?” mynta John. “Cillath odd na Mari.”

“Nace, John, shishwrn odd na.”

“Nace, Mari, cillath odda na; w i ddim mor dwp nag w i'n gwpod gwaniath rwng cillath a shishwrn.”

“O,” mynta Mari. “Y fi sy'n dwp efa? I â i nol at mam.”

Ma'r dwr yn ryttag o'i llicced i, i baccodd i box a off a i. I gwrddson men mish.

“Na ddwl i ni weti bod,” mynta Mari, “Cistal i ni fynd at y'n giddil ytto.”

“Right o,” mynta John.

I ethon a am gwppwl o ddyrnota odd poppath yn A1. Wrth swppar un noswath i wetws Mari:—

“Dishgwyl mor ddwl buo ni dim on' achos shishwrn.”

“Ia,” mynta John, “i wetast ti shishwrn a i wetas i cillath.”

“Ia John,” mynta Mari, a llond i phen o fara menyn “Ia, on' shishwrn odd ia.”

Ma'r randiboo yn dychra to a off a Mari at i mam.

Na fel buws petha am yn tcos i flwyddyn on i ath Mari yn eetha tost o rwy ffeevan a i cartwd i i'r Ospital. I wetwd yr anas wrth John, a fi ath am dro idd i gweld i. Odd fawr gopath am wella a allsa Mari ddim wilia fawr dim.

“Mari,” mynta John, yn ceesho snwffan diccyn. “pan wellweh chi raid i ni starto byw gytta'n giddil ytto. a uso diccyn o sense.”

“Raid John,” mynta Mari miwn llaish gwan.

“Dim on' shishwrn,” mynta John. “Twt, i fuon yn ddwlach na phlant.”

“Do,” mynta Mari, a'i llaish yn mynd yn wanch. “John!”

I nesws John at ochor y gwely, a ma Mari yn cwnni doi fys nes gneyd shap shishwrn.

“John,” mynta i, “John.”

Wara'r ddoi fys odd Mari fel shishwrn; odd i'n ffeelu wispran, a na fel y buws i farw yn pleto o yd ma shishwrn odd ia.

O ia, Dai a'r bachan diarth. Odd wnnw yn gorwadd ar ascwrn i gefan yn wyrthin, w i'n gwpod fod Dai yn gweyd rwpeth smala.

"Share the joke," mynta Ted.

"Pwt o bennill Sysnag netho i o barch i'r bachan ma," mynta Dai.

"Wel," myntwn i, "Read it out, Dai."

"Ma fa," mynta Dai.

"Let the Kaisar send 'is showdars
In excursion trains to fight;
Let 'im shovel Black Marias
An' Jack Johnsons day an' night;
'E will find the Welsh Conundrums
Always ready for a fight,
When 'e chucks the sponge for evar
Then 'e'll know that Right is Might."

I ddath yn amsar gwely, a da i gal a, wath' y borâ nesa o ni'n starto i'r Front i neyd y'n ran i ddoti snwffar ar ganwll Will y Kaisar, a walla, 'eb opâth am wely am wthnosa.

* * * * *

Wrth gwnni yn y bora i wetws Dai:—

"Erbyn ettrych, Shoni, ma'r gair Conundrum weti nicklo i. Ma cymant o'r beirdd ma a do'i enw, ma want arno i ddoti'r enw miwn yn y'n enw i. Shwd fyssa 'Dafydd Conundrum Jones' yn dishgwl yn y 'Seren' bachan? Dim ffol, Shoni? Beth di'n weyd?"

"Na fel bydd i Dai," myntwn i, "Os ewn ni nol yn fyw, i fyddwn yn di napod' ti fel Mr. Conundrum Jones."

"Wot's in a name?" mynta Dai, "na wetws Shakespeare."

"Lot my boy," myntwn i. "W i'n cofio stori am dad yn mynd a babi at ffeerad i gal i fyd-yddio yn yr Ecclws."

"Name the child," mynta'r fferad.

"Dinah M.," mynta'r tad.

"A funny name," mynta'r ffeerad. "Wot does the 'M' stand for?"

"It depends," mynta'r tad.

"It depends?" mynta'r ffeerad.

"Yes ser. If she grows up a nice sweet-tempered girl like 'er father, I'll call 'er—Dinah May."

"Yes. Very good," mynta'r ffeerad,

"But if she grows up a surly, naggin', 'ot-tempered ooman like 'er mother, then I'll call 'er—Dynamite."

Off a'r train sha—

"O ia, sdim awl gweyd enw'r lle, ôs a, Shoni," mynta Dai.

"Nacos bachan," myntwn i, "Ma'r Censor yn byrticular iawn."

"Censor? Pwy yw'r bloke? Bachan sy a'r con-track i neyd sense o'n llithyron ni?" mynta Dai.

"Rwpath eetha tepyg," myntwn i.

I basws y train stashion—, stoppws yn—er mwyn i'r injin gal anal, a mlan wettyny i—; a mas a ni. Mlan a ni i—.

"Ma ni yn y Front, Dai, a'r trenches o fiwn cyrradd," myntwn i. "Bwccla lan! W i'n cofio geira Mock yr Overman—

"Os dewch chi nol yn fyw."

"Torcha di lewish, wath ma gwaith calad o'n blan ni."

"Nel Referendem," mynta Dai.

"Nil Desperandum, wy ti'n feddwl Dai," myntwn i.

"Wath gen i beth yw ta," mynta Dai. "I newn drenches y Sossinjers yn banarmonium cyn pen wthnos ar mencos i."

Ma'r ordars yn dod! Cant o onno ni i starto i'r trenches er mwyn i'r poor dabs odd yndi nw os tri dwyrnod i gal spel. Off a ni drw'r côd mor ddishtaw a llicod; mlan dros bish-yn agorad, pob un yn crippan fol brôca, a plwmp a ni i'r trench.

"Landed," mynta Dai.

"Yn ble?" myntwn i, a'r slwdge yn splash-an ar 'yd y ngoesa i, "Yn ble Dai?"

"Yn y swmp ar mencos i. Ia Shoni," mynta Dai. "Ble ma'r itchwr iddo gal enocco ar yr injinaire i'n cwnni ni dros y ifflanges. Ma le! Jaist ariod w i weti bratu shuit o ddillad first-class eeshws; on der di Shoni, i gaiff our friend Will o Berlin dalu'r teelwr am y shuit nesa. Caiff, myn yffryd i. Now the fire works begin."

"Bachan, na dop line i bwt o bennill," myntwn i.

"Cistal enocco cwppwl o lines at i giddil, Shoni, efa?"

"Ia," wetas i, yn crafu peth o'r slwdge o ar y'n ngwynab.

Now the fireworks begin
Tell my Nabs. Will of Berlin,
In the trench he'll find Ni'n Doi,
Now Bill repent, a ynnyn gloi.

"Na ddiicon ar Will a'i fab, Shoni."

Yn y trenches o'r diwadd!

Y DDOI-DDEC FAD SHWRNA.

“YN Y BAW A'R SLWDGE.”

O NI weti darllan llawar am biccil y trenches, a erbyn 'yn ma ni'n gwpod trwy brofiad. Dim i neyd on bod yn folon. Cwttar, a diccyn o ddwndar yndi, yw trench, a thwlla yn depyg i lefla bach; amall i “man'-ole” fel ni'n gweyd, lle i scwtto miwn pan fyssa Mrs. Maria a Mrs. Johnson yn teemlo want gneyd aftar-noon call.

Pan fyssa'n nw'n dod odd yr officars yn y'n pyrswato ni i weyd—“Not at 'ome,” r'un peth a'r gwyr mawr, yr uppar ten (a'r gwyr bach 'efyd) pan i nw ddim on speakin' terms a'r tacla sy'n galw.

O bothdi'r—“Not at 'ome” na odd yn raid bod yn byrticular. W i'n cofio am fenyw fach odd a diccyn o 'en gownt i'r packman fuws ddim yn ddiccon pyrticular. Odd i weti gweyd wrth i chrottan fach, os desa'r packman i ettrych am i arian, am weyd—Mothar's not at 'ome, Ser.

Un bora dy' Llun, pan odd y fenyw fach yn cwrlo'i gwallt, i ddath y packman 'eb yn wpod. I ryttws y fenyw fach lan i'r stars gan weyd,—

“Not at 'ome, cofia Liza fach,” mynta i.

Stars cerryg odd i'r tŷ yn mynd lan o'r gecin sha'r lofft, a drws ar y gweelod. Odd y sâr ddim weti bod yn ddiccon pyrticular gyta gweelod y drws efyd, odd

no le gwag rwng y drws a'r steps. I geiws y fenyw fach y drws, a i ddath y packman i miwn.

"Mothar at 'ome, little girl?" mynta fa.

"Mothar is not at 'ome," mynta Liza fach yn cochi fel tân.

I ddishgwilws y packman at weelod y stârs.

"O," mynta fa, "Not at 'ome? Wel, tell your mothar when she goes from 'ome next time to take 'er feet with 'er."

Odd trad y fenyw fach yn y golwg o dan weelod y drws.

Yr un peth gytta'r Jacks a'r Marias, odd dim use gatal dim yn y golwg. Fyssa'n ard lines ar Will o Berlin sa fa miwn trench, wath, a barnu wrth i bittwr a, i fyssa blan i fystash a yn siwr o bocan i'r golwg o 'yd. Na pam ma Will yn lodgo miwn tent yn ddiccon pell o'r trenches. Odd i'n dywyll dychryn-lyd a dim on' amall i ganwll ne lamp, man 'yn a man arall, wath odd boys y Sossiniers 'eb fod yn bell.

"Bachan," mynta Dai, "i ni fel sa' ni'n barod i starto talcan yn yr 'Ouse Coal, a ettrych ar y gola nôth."

"Ottin, wir ddyn," myntwn i, "i lieswn i weld gola ddydd i ni gal dychra'r performance."

Ishta o Ni'n Doi pan ddath officar eebo.

"Right boys?" mynta fa yn wispran.

I begson ninna'n penna.

"German trenches within two 'undred yards; keep quiet an' listen for the Marias an the Johnsons; cool does the trick lads."

I begson y'n penna wettyny.

“Snipars are busy about 'ere, keep your eyes open,” mynte fa, a off age ar ras trw'r trench at y boys erill.

“Na shawns i ti Dai gytta'r snipars na i ddangos beth allu di neyd,” myntwn i.

“Ia, figinta Shoni,” mynta Dai, “a shawns i titha 'efyd. Wel, i newn y'n gora, ond cofia gatw wrth y'n ochor i, showdar to showdar—Ni'n Doi—wath ma ingagemant gytta ni yn y Red Cow yn Berlin.”

“Gwrando Dai,” myntwn i, “ma ddarllenas i yn un o'r pappra.

“The collier boys of our Company have earned undying fame: we have a party employed in tunnelling or sapping, and they have done fine work. Their hard-heading experience is worth untold gold to our side now. The Commanding Officer of the Welsh came down the trench whispering,—‘Now you men of the Welsh and boys from Monmouthshire, show them what you can do.’”

“Sa fa ma nawr,” mynta Dai, “i wetswn—Ay butty we will mynyffryd i. I lieswn gal clip ar y bora, Shoni, w i'n teemlo nawr fel sa ni'n weeto i'r aliar ddod a drams.”

“Gwrando to, Dai,” myntwn i.

“The flower of the aristocracy as well as the flower of the democracy were giving their lives in the service of the country.”

“Y gwyr mawr a'r gweethwrs on tefa,” mynta Dai.

“Ia, ia,” myntwn i. “rwpeth yn debyg i'r 'en bennill,—

“Pawb o'r brotyr yn gyttun
Eb neb yn tynnu'n grôs.”

"Ia, *ond* y Pro-Germans," mynta Dai. "I grogswn i pob Pro-German wrth winadd i drad, ma nw'n wath na'r Germans i unen. Otthi pawb o'r brotyr yn gyttun yw'r point? Beth am y submarines sy yn i dodgan i roun' Shir Bemro? Ma nw'n bell o Germany. Ble ma nw'n cal i supply o oil i'r injins, a bwyd i'r morwrs? Na gwppwl o gwestshyna lieswn i gal attab idd i nw, Shoni. Ma arno i ofan fod rai o'r brotyr eb fod yn gyttun."

"Ma rwpeth yn beth di'n weyd, Dai," myntwn i.

"Os Shoni. On' ma gytta Ni'n Doi waith o'n blan, a sdim amsar gytta ni i ffindo'r 'ins a'r outs.' Gwaith y blokes sy'n cal yr arian mawr yn y Parlamant yw dod o 'yd i'r racsach sy'n elpu Will."

Odd y Germans weti cal ffit o ddishtawrwdd, na shwt odd Dai a finna yn cal amsar i foddrach o bothdi submarines. On' cyn i'r oil gal amsar i acor drws i ffront ma ergyd gan y Black Marias.

"Wiw," mynta Dai dan i anal, "ma'r consart yn dychra a Will o Berlin yn wara Bonapart's March ovar the Alps ar i yrdigyrdi."

I bippws Dai yn sly dros ben y trench.

